# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 13 a 20 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiwn i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

30 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

31 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

32 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

46 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiwn i'r Prif Weinidog

### Y Papur Gwyrdd ar Bensiynau

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda'i gydweithwyr yn San Steffan ynghylch y Papur Gwyrdd ar bensiynau? (WAQ23353)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr wyf yn cadw mewn cysylltiad agos â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn ag amryw o faterion, gan gynnwys pensiynau galwedigaethol a'r materion penodol sy'n codi o gau gwaith Allied Steel and Wire yng Nghaerdydd.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Y Bartneriaeth Fwyd-amaeth

**Alun Cairns:** Pa gynllun gweithredu a luniwyd i atgyfnerthu'r hyfforddiant, yr wybodaeth a'r gwasanaethau cynghori i helpu ffermydd i addasu, cynllun y bydd gofyn i'r bartneriaeth fwyd-amaeth gytuno arno? (WAQ23327)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Nododd cynlluniau gweithredu'r sector cig coch, y sector llaeth a'r sector organig yr angen i ddarparu cymorth i deuluoedd fferm i'w galluogi i addasu. Mae'r gweithredu yn cael ei roi ar waith drwy Cyswllt Ffermio, gwasanaeth cynhwysfawr, cydlynus, sy'n cynnig cyngor a hyfforddiant i ffermwyr. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys darparu tîm o hwyluswyr lleol; dewis o ymgynghorwyr busnes o'r sector preifat sy'n darparu cyngor busnes am ddim; pecynnau ymgynghori arbenigol i'r sectorau eidion a defaid, llaeth, organig, twristiaeth, bwyd a choetiroedd; cyngor amgylcheddol sydd ar gael drwy'r cynllun datblygu busnesau fferm, rhwydwaith o ganolfannau datblygu a ffermydd arddangos sydd ar gael ar draws Cymru, hyfforddiant pwrpasol ym maes technoleg busnes a gwybodaeth a chylchoedd peiriannau fel bod modd cydweithredu mwy. Bydd y bartneriaeth fwyd-amaeth yn parhau i oruchwylio datblygiad Cyswllt Ffermio i'r dyfodol.

### Proffil a Dylanwad Rhyngwladol Cymru

**Alun Cairns:** Ym mha ffordd y mae'r strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo wedi mynd ati i hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru ac i sicrhau yr ystyrir ef yn lle heb ei ail i fyw, astudio, ymweld ag ef a gwneud busnes? (WAQ23331)

**Alun Cairns:** Pryd y cytunwyd ar strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo i hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru ac i sicrhau yr ystyrir ef yn lle heb ei ail i fyw, astudio, ymweld ag ef a gwneud busnes? (WAQ23332)

**Alun Cairns:** Pa strategaeth gyfathrebu a hyrwyddo, y cyfeirir ati yn 'GwellCymru.com', i hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a sicrhau yr ystyrir ef yn lle heb ei ail i fyw, astudio, ymweld ag ef a gwneud busnes a gytunwyd arni? (WAQ23333)

**Michael German:** Lansiwyd pecyn cyfathrebu a hyrwyddo Wales World Nation—llenyddiaeth, CD-ROM a gwefan—ym mis Mawrth 2001. Parhawn i wella a datblygu'r deunydd. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu brand rhyngwladol i hyrwyddo Cymru.

**Y Diwydiant Llaeth, Ŵyn ac Eidion**

**Alun Cairns:** Faint o gynnydd a fu bob blwyddyn yng nghanran nifer y swyddi net yn y diwydiannau llaeth, ŵyn ac eidion: yn 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23335)

**Michael German:** Gellir cael nifer y gweithwyr ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru o'r cyfrifiad amaethyddol blynyddol. Mae'r ffigurau o ran cyfanswm y gweithwyr ar ddaliadau amaethyddol rhwng 1999 a 2002 fel a ganlyn.

| **Math o fferm** | **1999** | **2000** | **2001 (b)** | **2002** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfrif pennau** | | | | |
| Llaeth | 10,600 | 9,400 | 9,500 | 8,600 |
| Arbenigo mewn eidion | 1,200 | 1,100 | 1,100 | 1,200 |
| Arbenigo mewn defaid | 11,100 | 10,100 | 10,300 | 10,700 |
| Da byw cymysg | 25,400 | 23,500 | 23,900 | 23,400 |
| Mathau eraill o ffermydd | 11,500 | 11,600 | 11,600 | 12,300 |
| **Cyfanswm** | **59,700** | **55,700** | **56,400** | **56,300** |
| **Cynnydd ers y flwyddyn gynt** | | | | |
| Llaeth | -6% | -11% | 1% | -9% |
| Arbenigo mewn eidion | -8% | -9% | 2% | 12% |
| Arbenigo mewn defaid | -1% | -8% | 1% | 4% |
| Da byw cymysg | -6% | -7% | 2% | -2% |
| Mathau eraill o ffermydd | 0% | 1% | 0% | 6% |
| **Cyfanswm** | **-4%** | **-7%** | **1%** | **0%** |

Mae niferoedd y gweithwyr wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf. Bwrir cyfrif o'r cyfraddau gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

Mae gweithwyr fferm yn cynnwys ffermwyr sydd â'u ffermydd eu hunain (a'u gŵyr/gwragedd a phartneriaid busnes eraill), gweithwyr rheolaidd ac achlysurol a gweithwyr eraill tymor byr. Cyfrif pennau yw'r niferoedd a roddir, ac maent yn cynnwys swyddi rhan-amser.

Mae'r math o fferm yn disgrifio'r prif weithgaredd ar ddaliad y fferm. Nid yw hyn yn golygu mai dim ond un gweithgaredd sy'n cael ei wneud ar y fferm. Nid yw'n bosibl dyrannu swyddi i sectorau amaethyddol penodol o'r cyfrifiad amaethyddol.

Mae'r tabl cyntaf yn ystyried gweithwyr ar ddaliadau amaethyddol. Nid yw'n cynnwys swyddi mewn diwydiannau prosesu bwyd. Mae gwybodaeth am y gweithwyr hyn ar gael o'r ymchwiliad busnes blynyddol ac mae'n cael ei dangos isod. Mae'r diwydiannau prosesu bwyd yn cynnwys lladd-dai, prosesu cig a hefyd prosesu bwydydd o lysiau, ffrwythau, grawnfwydydd a chnydau eraill.

| **Blwyddyn** | **Gweithwyr** | **Newid blynyddol** |
|---|---|---|
| **1999** | 20,800 | -7 y cant |
| **2000** | 22,600 | 9 y cant |
| **2001** | 22,700 | 1 y cant |
| **2002** | amherthnasol | amherthnasol |

Mae'r ffigurau yn dangos niferoedd y gweithwyr wedi'u talgrynnu i'r 100 agosaf. Nid ydynt yn cynnwys gweithwyr hunangyflogedig. Bwrir cyfrif o'r cyfraddau newid blynyddol gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

Mae'r dulliau casglu gwahanol y ddwy set o rifau yn golygu nad oes modd cymharu nifer y gweithwyr fferm a nifer y gweithwyr yn y diwydiannau prosesu bwyd yn uniongyrchol.

### Y Bartneriaeth Fwyd-amaeth

**Alun Cairns:** Beth yw'r cynlluniau gweithredu diweddaraf y mae'r bartneriaeth fwyd-amaeth wedi cytuno arnynt ar gyfer y sector ŵyn, y sector eidion, y sector llaeth a'r sector organig? (WAQ23336)

**Michael German:** Ym mis Medi 2001, cytunodd y bartneriaeth fwyd-amaeth ar gynlluniau gweithredu wedi'u diweddaru i'r sector llaeth, y sector cig coch a'r sector organig. Ym mis Ebrill eleni, bydd grŵp strategaeth laeth y bartneriaeth fwyd-amaeth yn cyhoeddi strategaeth laeth wedi'i diweddaru.

### Y Bartneriaeth Fwyd-amaeth

**Alun Cairns:** Pa gamau a gymerwyd i atgyfnerthu'r hyfforddiant, yr wybodaeth a'r gwasanaethau cynghori sydd ar gael i helpu ffermydd i addasu, camau y mae gofyn i'r bartneriaeth fwyd-amaeth gytuno arnynt? (WAQ23337)

**Michael German:** Cafodd Cyswllt Ffermio dderbyniad da gan y gymuned ffermio gyda 5,321 wedi cofrestru am y gwasanaeth cynllunio busnes erbyn diwedd Ionawr 2003. Mae bron i 2,400 o ymweliadau busnes ymgynghorol wedi dechrau a chwblhawyd 1,076 o gynlluniau datblygu busnesau fferm a 108 o adolygiadau opsiynau busnesau fferm. Mae nifer y ffermwyr sy'n derbyn cyngor drwy'r hwyluswyr lleol (dros 7,500 hyd yma) eisoes yn uwch na'r targedau gwreiddiol. Mae cyfanswm o 843 o ffermydd wedi manteisio ar yr hyfforddiant technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gyda 242 o ffermydd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant 'ar y fferm'.

### Cytundeb Amaeth-Amgylcheddol

**Alun Cairns:** Pa gyfran o'r tir amaethyddol sy'n berthnasol i'r cytundeb amaeth-amgylcheddol, neu sydd wedi'i gofrestru fel tir organig, sydd wedi ennill statws organig? (WAQ23338)

**Michael German:** Y mae rhyw 430,000 hectar o dir yng Nghymru yn cael eu rheoli o dan delerau cytundebau amaeth-amgylcheddol ac o'r rhain mae bron i 45,000 hectar neu 10.5 y cant wedi cofrestru'n organig.

### Gwerth Ychwanegol Coedwigaeth yng Nghymru

**Alun Cairns:** Pa gamau a gymerwyd i gynyddu gwerth ychwanegol coedwigaeth yng Nghymru, a hynny trwy ddatblygu melinau coed bach neu biodanwydd a thrwy gynyddu arwynebedd y coetiroedd sy'n cael eu rheoli ar ffermydd? (WAQ23339)

**Michael German:** Yn sgîl cyflwyno cynllun prosesu coed Cyswllt Ffermio, sy'n cael ei weithredu drwy bartneriaeth rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth, darparwyd grantiau tuag at wariant cyfalaf ar offer cynaeafu a phrosesu, ar raddfa fach a mawr, i alluogi ffermwyr i ychwanegu gwerth at goed ar goetiroedd fferm. Nid yw Cyswllt Ffermio yn rhoi cymorth uniongyrchol i reoli coetiroedd ond ei nod yw gwneud y gwaith rheoli yn hunangynhaliol yn economaidd.

Hyd yma, mae dros 30 o gleientiaid wedi derbyn cyngor ymgynghorol ynglŷn â choed a choetiroedd drwy Cyswllt Ffermio. Cymeradwywyd ceisiadau am grantiau cyfalaf gan ryw 21 o'r rhain, gan gynnwys un felin goed fach a dwy felin goed fawr. Ymysg yr offer arall mae proseswyr coed tân, peiriannau torri priciau cynnau tân, peiriannau torri sglodion pren ac odynau sychu coed. Mae cyswllt uniongyrchol rhwng y 21 prosiect a thua 400 hectar o goetiroedd a gallent helpu i wneud rheolaeth coetiroedd eraill yn fwy dichonadwy drwy ddarparu gwasanaeth lleol i ffermwyr a thirfeddianwyr eraill.

Gall coedwigaeth gyfrannu'n sylweddol tuag at helpu i greu diwydiant biodanwydd. Yr ydym yn disgwyl defnyddio cronfeydd Amcan 1 a 2 i ddatblygu cynllun grantiau cyfalaf newydd i ariannu'r gwaith o sefydlu bwyleri biodanwydd bach a chanolig eu maint, a chyfleusterau cysylltiol. Dylai hyn ddarparu'r cymhelliad angenrheidiol i ysgogi busnesau newydd i ddatblygu, gan ychwanegu gwerthu at goed pren caled a phren meddal ar ffermydd.

### Arwynebedd y Coetiroedd

**Alun Cairns:** Faint o gynnydd a fu bob blwyddyn yng nghanran arwynebedd y coetiroedd sy'n cael eu rheoli ar ffermydd yn 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23340)

**Michael German:** Bu cynnydd cyson yn arwynebedd y coetiroedd sy'n cael eu rheoli ar ffermydd er 1999. Mae Tabl 1 yn rhoi'r manylion arwynebedd, mewn hectarau, a'r cynnydd yn ôl canran am bob blwyddyn ariannol (yn gorffen ar 31 Mawrth).

Y mesur gorau i'w ddefnyddio i nodi arwynebedd y coetiroedd sy'n cael eu rheoli yw'r arwynebedd sy'n destun contract cynllun grant coetiroedd wedi'i gymeradwyo. Mae'r cynllun grant hwn ar gael i ffermwyr a pherchnogion coetiroedd eraill. Y coetiroedd sy'n cael eu cyfrif yn goetiroedd ar ffermydd yw'r rheini lle mae'r ymgeisydd wedi nodi ei fod yn derbyn mwy na 25 y cant o'i incwm o ffermio,.

**Tabl 1**

| **Coetiroedd ffermydd sy'n cael eu rheoli ar ffermydd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn gymeradwyo o dan y cynllun grant coetiroedd** | **Cyfanswm arwynebedd y coetiroedd fferm yn yr holl gontractau newydd a roddwyd o dan y cynllun grant coetiroedd yn ystod y flwyddyn** | **Arwynebedd cronnol** | **% y gwahaniaeth yn yr arwynebedd coetiroedd o'i gymharu ag 1998/99** |
| 1998/99 | 767 | 767 | 100 |
| 1999/00 | 1,056 | 1,823 | 38 |
| 2000/01 | 1,916 | 3,739 | 150 |
| 2001/02 | 2,648 | 6,387 | 245 |
| 2002/03 hyd yma | 2,750 | 9,137 | 258 |
| | **9,137** | **ha** | |

Cyfran fach o arwynebedd yr holl goetiroedd sy'n cael eu rheoli yw'r arwynebedd coetiroedd fferm a ddangosir yn nhabl 1. Dangosir arwynebedd yr holl goetiroedd yn nhabl 2.

**Tabl 2**

| | **Yr holl goetiroedd sy'n cael eu rheoli (gan gynnwys coetiroedd fferm)** | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn gymeradwyo** | **Cyfanswm arwynebedd y coetiroedd yn yr holl gontractau newydd a roddwyd o dan y cynllun grant coetiroedd yn ystod y flwyddyn** | **% y gwahaniaeth yn yr arwynebedd coetiroedd o'i gymharu ag 1998/99** | **Arwynebedd cronnol** |
| 1998/99 | 7,365 | 100 | 7,365 |
| 1999/00 | 7,288 | 99 | 14,653 |
| 2000/01 | 11,480 | 156 | 26,133 |
| 2001/02 | 10,904 | 148 | 37,037 |
| 2002/03 | 12,405 | 168 | 49,442 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| hyd yma | | | |
| | **49,442** | **ha** | |

Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cyfran y coetiroedd ar ffermydd yn uwch gan na fydd rhai ymgeiswyr efallai wedi nodi bod mwy na 25 y cant o'u hincwm yn dod o ffermio.

**Rhoi'r Cynllun Datblygu Gwledig ar Waith**

**Alun Cairns:** Ym mha ffordd y mae rhoi'r cynllun datblygu gwledig ar waith, fel y cyfeiriwyd ato yn 'GwellCymru.com', wedi effeithio ar y cydbwysedd rhwng cyflogaeth sectorau mewn ardaloedd gwledig a'r lefelau is o bobl ifanc sy'n allfudo, ar gyfer pob blwyddyn: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23341)

**Michael German:** Yn gyntaf, carwn ddweud bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn fod yr allfudo o gefn gwlad Cymru ymysg pobl ifanc yn fater o bwys. Dyna pam y bu inni gomisiynu'r astudiaeth cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran. Mae hon yn astudiaeth drawsbynciol, wedi'i seilio ar dystiolaeth, a fwriadwyd i gynhyrchu cynllun gweithredu a fydd yn nodi'r hyn y mae angen i'r Cynulliad a'i bartneriaid ei wneud i ymdrin â'r rhesymau pam fod pobl ifanc yn gadael cefn gwlad Cymru a'r pethau sy'n eu rhwystro rhag dychwelyd. Mae'r astudiaeth yn tynnu tua'i derfyn.

Gan symud ymlaen at y cynllun datblygu gwledig i Gymru, cafodd hwn ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Rhagfyr 1999, ei gymeradwyo ym mis Hydref 2000 ac mae'n ymdrin â'r blynyddoedd calendr rhwng 2000 a 2006. Gweithredwyd y cynllun yn dda er 2000 ac, erbyn diwedd 2002, yr oedd dros £150 miliwn wedi cael ei rwymo i gynlluniau a phrosiectau a gynhwyswyd yn y rhaglen.

O ran y lefelau allfudo, yr unig ffordd o gael darlun realistig yw drwy edrych ar y mewnlif a'r all-lif. Mae'r tabl isod yn nodi'r ystadegau symud net diweddaraf.

| | **Cyf. Pobl** | **Nifer o bobl** | | | **Cyfran o'r grŵp oedran** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mewn** | **Allan** | **Net** | **Mewn** | **Allan** | **Net** |
| **Cymru** | **320,200** | **56,200** | **59,400** | **-3,200** | **18%** | **19%** | **-1%** |
| Wledig | 94,400 | 18,900 | 23,800 | -4,800 | 20% | 25% | -5% |
| Cymoedd | 81,900 | 8,000 | 10,100 | -2,000 | 10% | 12% | -2% |
| Trefol | 97,700 | 23,200 | 18,100 | +5,100 | 24% | 18% | +5% |
| Eraill | 46,200 | 6,100 | 7,500 | -1,400 | 13% | 16% | -3% |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o ailgofrestriadau meddygon teulu.

- Gan gynnwys symudiadau o fewn Cymru a Lloegr yn unig.
- Heb fod yn cynnwys symudiadau o fewn gweddill y DU a thramor.
- Heb fod yn cynnwys symudiadau o fewn yr un awdurdod lleol.
- Y cyfanswm pobl wedi'i gymryd o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2000.
- Nifer y bobl a ddangosir wedi'i dalgrynnu i'r 100 agosaf.
- Yr holl gyfrifo wedi'i wneud gyda data a oedd heb ei dalgrynnu.

Yn olaf, o ran y cydbwysedd cyflogaeth, mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau rhwng 1999 a 2002.

| **Cyfanswm y bobl mewn cyflogaeth fesul diwydiant cyflogi (a)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cyfran fesul grŵp diwydiannol (b)** | | | | |
| | Cyf. mewn cyflogaeth | Amaeth-yddiaeth | Gweith-gynhyrchu | Gwasanaethau —sector preifat | Gwasanaethau —sector cyhoeddus | Cyllid |
| **Cymru** | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1999 | 1,242,000 | 3% | 29% | 29% | 29% | 10% |
| 2000 | 1,258,000 | 3% | 27% | 31% | 29% | 10% |
| 2001 | 1,257,000 | 2% | 27% | 32% | 29% | 10% |
| 2002 | 1,273,000 | 3% | 26% | 31% | 30% | 10% |
| **Awdurdodau lleol gwledig** | | | | | | |
| 1999 | 402,000 | 7% | 22% | 32% | 29% | 8% |
| 2000 | 409,000 | 7% | 20% | 32% | 31% | 9% |
| 2001 | 409,000 | 6% | 23% | 31% | 31% | 8% |
| 2002 | 413,000 | 6% | 22% | 31% | 34% | 7% |
| **Awdurdodau lleol y Cymoedd** | | | | | | |
| 1999 | 314,000 | # | 38% | 26% | 27% | 9% |
| 2000 | 312,000 | # | 37% | 26% | 27% | 8% |
| 2001 | 326,000 | # | 34% | 27% | 29% | 9% |
| 2002 | 327,000 | # | 31% | 28% | 31% | 9% |
| **Gweddill Cymru** | | | | | | |
| 1999 | 525,000 | # | 29% | 28% | 29% | 12% |
| 2000 | 537,000 | # | 26% | 33% | 29% | 12% |
| 2001 | 522,000 | # | 25% | 35% | 27% | 12% |
| 2002 | 533,000 | # | 27% | 32% | 27% | 12% |

(a) Ffynhonnell: ffigurau cyfartaledd blynyddol yr Arolwg o'r Llafurlu.
Defnyddiwyd diffiniad safonol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o bobl mewn cyflogaeth.
Mae hyn yn cynnwys pob gweithiwr cyflog a phobl hunangyflogedig.
# yn dynodi canlyniadau o sampl annigonol i allu eu cyhoeddi
(b) Y prif grwpiau diwydiannol
Amaethyddiaeth—gan gynnwys pysgodfeydd a choedwigaeth.
Gweithgynhyrchu—gan gynnwys adeiladu, ynni, mwyngloddio, chwarela.
Gwasanaethau sector preifat—gan gynnwys adwerthu, cyfanwerthu, trafnidiaeth, dosbarthu, hamdden.
Gwasanaethau cyhoeddus—gan gynnwys addysg, iechyd, llywodraeth ganolog a lleol.
Cyllid—gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu a gwasanaethau ariannol.
Gadawyd nifer fach o ymatebion annosbarthedig allan o'r grwpiau diwydiannol, felly ymddengys efallai nad yw'r cyfanswm yn cyfateb i 100 y cant.

### Nifer y Cymorthdaliadau a Dalwyd i Ffermwyr

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gymorthdaliadau a dalwyd i ffermwyr y tu allan i'r ffenestr dalu gyfreithiol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ23350)

**Michael German:** Ar 6 Mawrth 2003, talwyd 356 o daliadau cymhorthdal o dan y polisi amaethyddol cyffredin mewn perthynas â blwyddyn 2002 y cynllun y tu allan i ffenestr dalu yr Undeb Ewropeaidd.

### Nifer y Cymorthdaliadau a Dalwyd i Ffermwyr

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o gymorthdaliadau a dalwyd i ffermwyr gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (WAQ23351)

**Michael German:** Ar 6 Mawrth, talwyd 33,704 o daliadau cymhorthdal PAC i ffermwyr yng Nghymru yng nghyswllt blwyddyn 2002 y cynllun.

**Mentrau Polisi yn Nelyn**

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ei fentrau polisi yn Nelyn? (WAQ23538)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru meysydd ei bolisïau sydd wedi gwella bywydau pobl Delyn? (WAQ23556)

**Michael German:** Nodwyd polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefn gwlad Cymru yn 'Cynllun i Gymru 2001' a 'Cymru'n Ennill'. Maent yn cynnwys ystod o fesurau a fwriadwyd i ehangu'r economi wledig a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng nghefn gwlad yn ogystal â chefnogi amaethyddiaeth a phrosesu bwyd. Yn y rhan o ogledd Cymru nad yw'n ardal Amcan 1, er enghraifft, mae cymorth grant o ryw £1.2 miliwn wedi cael ei ddarparu o dan gynllun grant prosesu a marchnata'r Cynulliad sydd, yn ei dro, wedi creu rhyw £3.8 miliwn o fuddsoddiad i gyd. Yn yr un ardal, o dan y cynllun Cyswllt Ffermio, mae grant o tua £210,512 wedi cael ei ddarparu i 24 o deuluoedd fferm fel cyfraniad at fuddsoddiad o £815,724 i gyd.

Yn fwy diweddar, yr ydym wedi darparu £3 miliwn i gynorthwyo dau fenter adfywio cymunedol gwledig, gweithredu cymunedol gwledig, ac erthygl 33 o'r cynllun datblygu gwledig. Bydd llawer o'r wardiau yn etholaeth Delyn yn gymwys i wneud cais am gymorth grant o dan y cynlluniau hyn. Mae'r cyllid yn rhan o'r buddsoddiad ychwanegol sylweddol o £22 miliwn a ddyrannwyd i'r gyllideb amaethyddiaeth a datblygu gwledig i gynnal polisïau'r Cynulliad yn 2003-04.

**Tir Amaethyddol**

**Owen John Thomas:** Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, faint o dir amaethyddol y rhoddwyd y gorau i'w ddefnyddio at ddibenion amaethyddol? (WAQ23722)

**Michael German:** Y mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn cymharu tir amaethyddol ym mis Mehefin 2002 a mis Mehefin 2001. Nid oes canlyniadau ar gael fesul blwyddyn ariannol.

**Arwynebedd y daliadau amaethyddol yng Nghymru ('000 hectar)**

| | Cyfanswm (a) | Tir Pori (b) | Tir Âr (c) | Eraill (d) |
|---|---|---|---|---|
| Mehefin 2001 | 1,443 | 1,202 | 184 | 56 |
| Mehefin 2002 | 1,452 | 1,198 | 195 | 60 |
| Newid | +10 | -5 | +11 | +3 |
| | +0.7% | -0.4% | +6.0% | +5.6% |

Ffynhonnell: y cyfrifiad amaethyddol a gynhelir fis Mehefin bob blwyddyn
(a) Yr holl dir ar ddaliadau amaethyddol. Nid yw'n cynnwys defnyddio tir pori comin garw.
(b) Tir pori parhaol (dros 5 oed) a hawliau cyfangwbl ar dir pori garw.
(c) Pob cnwd âr a garddwriaethol. Gan gynnwys braenar heb ei hadu.
(d) Tir wedi'i neilltuo, coetiroedd ar ddaliadau fferm, adeiladau fferm, llynnoedd, llwybrau a phob math arall o dir.

**Goroesiad Rhywogaethau Mewn 'Perygl Mawr'**

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod y rhywogaethau y mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar wedi'u dynodi'n rhai sydd mewn 'perygl mawr' yn goroesi ar dir ffermio yng Nghymru? (WAQ23724)

**Michael German:** Y mae'r RSPB wedi tynnu sylw at bedair rhywogaeth o adar tir ffermio—bras yr yd, yr ehedydd, y durtur a'r llinos benfelen. Mae'r rhain oll wedi'u rhestru ar restr y rhywogaethau a'r

cynefinoedd sydd o'r pwys pennaf er mwyn cadw bioamrywiaeth yng Nghymru (rhestr adran 74), a lansiwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd ym mis Tachwedd y llynedd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar annog a chynorthwyo gweithredu ar lefel leol i sicrhau bod y rhywogaethau hyn yn goroesi. Mae hyn yn cynnwys gweithredu drwy gynlluniau gweithredu lleol ar fioamrywiaeth a chynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Mentrau Polisi yn Nelyn

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru meysydd ei pholisïau sydd wedi gwella bywydau pobl Delyn? (WAQ23532)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ei mentrau polisi yn Nelyn? (WAQ23533)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Y mae Cymru gyfan, gan gynnwys Delyn, wedi elwa o 'Creative Future: Cymru Greadigol', fy strategaeth i gynnal diwylliant yng Nghymru, sy'n torri tir newydd. Er enghraifft, yr ydym wedi cynnig gwasanaethau rhyngrwyd a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu eraill i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim, o dan fenter rhwydwaith TGCh y bobl, gan ddod â budd gwirioneddol i amryw o gymunedau a phobl ledled Cymru. Yr wyf hefyd yn ddiweddar wedi lansio ein cynllun gweithredu i Gymru, 'Iaith Pawb', sy'n anelu at wneud yr iaith Gymraeg yn ganolog ym mholisïau Llywodraeth y Cynulliad er mwyn helpu i greu Cymru ddwyieithog.

Nid yw'n bosibl rhestru'r holl gymorth penodol a roddwyd i Ddelyn ond dyma rai achosion lle mae wedi elwa:

- Mae gwariant Cyngor Celfyddydau Cymru yn Sir y Fflint hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon yn £2,295,000. Cymorth i Clwyd Theatr Cymru yw llawer o hyn, wrth gwrs. Mae dros £19,000 wedi cael ei wario ar wella theatr yr ifanc yn Sir y Fflint a bron i £55,000 ar ddathlu'r celfyddydau yn y sir. Mae'r prosiectau celfyddydol eraill sy'n derbyn cyllid yn ardal Delyn yn cynnwys band pres y Parlwr Du (bron i £43,000) i brynu offerynnau newydd, cymdeithas gorawl yr Wyddgrug a'r cylch (£3,500) ar gyfer offerynnau cerdd, a £1,700 i Ŵyl Gerdd Llaneurgain;
- Yn ddiweddar mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi dyfarnu 25 grant cyfalaf Sportlot i ardal Sir y Fflint, gwerth bron i £3 miliwn;
- Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wrthi ar hyn o bryd yn gyrru'r argymhellion a wnaed gan y fforwm pêl-droed yn ei strategaeth ddatblygu genedlaethol yn eu blaen, gan gynnwys ardal Delyn. O ran cyfleoedd i fenywod a merched, mae cynghrair merched gogledd Cymru yn cael ei sefydlu a bydd 12 tîm i gyd yn cymryd rhan o ardaloedd Sir y Fflint a Sir Ddinbych;
- Darparodd Gyngor Llyfrau Cymru £18,000 ar gyfer y papur wythnosol Cymraeg, *Y Cymro*, sydd â'i ganolfan yn yr Wyddgrug;
- Mae'r cyngor llyfrau yn darparu cymorth ariannol a chymorth ar ffurf gwasanaethau dosbarthu i lyfrwerthwyr megis Siop y Siswrn yn yr Wyddgrug, ac mae ei gynrychiolwyr ysgolion yn gwneud gwaith hyrwyddo yn ysgolion a llyfrgelloedd Delyn yn rheolaidd;
- Mae cyllid ychwanegol oddi wrth y Cynulliad wedi galluogi'r prosiect ar drosglwyddo'r Gymraeg o fewn teuluoedd i benodi swyddog rhan-amser yn Sir y Fflint/Wrecsam;
- Mae Menter Iaith Sir y Fflint hefyd yn gweithio i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, ac mae cyllid oddi wrth y Cynulliad wedi ei galluogi i gyflogi swyddog ychwanegol i hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y sector preifat;
- Yn ddiweddar mae'r fenter wedi cynorthwyo cynllun Gwobr Dug Caeredin i gynnal cwrs blasu dwyieithog am y wobr;

- Mae Urdd Gobaith Cymru a'r Mudiad Ysgolion Meithrin yn cyflogi swyddogion datblygu yn Sir y Fflint/Wrecsam gyda chymorth grant oddi wrth Fwrdd yr Iaith Gymraeg;
- Mae'r sector preifat a'r sector gwirfoddol ill dau wedi gallu manteisio ar gynlluniau grantiau'r bwrdd sy'n rhoi cymorth i dalu am ddeunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog ac mae'r bwrdd yn dal i gefnogi *Papur Fama*, papur bro Cymraeg Delyn; ac
- Mae Cyngor Amgueddfeydd Cymru, sy'n cynrychioli amgueddfeydd ac orielau Cymru nad ydyn yn genedlaethol ac a gyllidir yn bennaf drwy grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi darparu grantiau ar gyfer swyddog amgueddfeydd sy'n gweithio o Amgueddfa'r Wyddgrug ac amgueddfa Dyffryn Maes-glas.

Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysfawr, ond mae'n dangos fel y mae fy mholisïau o fudd i bobl Cymru yn gyffredinol, ynghyd â rhai enghreifftiau o fudd penodol i bobl Delyn.

### Addasu Neuaddau Lleol i Wneud Darpariaeth Ddigonol ar gyfer Pobl Anabl

**Dafydd Wigley:** Beth yw cyfanswm yr arian sydd ar gael o gyllideb adran y Gweinidog ar gyfer 2003-04 i helpu addasu neuaddau lleol i wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer pobl anabl ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater? (WAQ23680) [W] [R] ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Y mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol wedi'i chynllunio'n benodol i ariannu gwelliannau i gyfleusterau lleol fel neuaddau cymuned, pentref neu eglwys. Mae gwell mynediad, cyfleusterau toiled neu offer arbenigol i'w defnyddio gan drigolion anabl cymunedau oll yn gymwys o dan y cynllun.

Yn sgîl y gofyn eithriadol am gyllid gan y rhaglen, mae cyllideb y cynllun o 2003-04 ymlaen wrthi'n cael ei hystyried.

### Cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop

**Alison Halford:** A yw'r Gweinidog yn gwybod a yw awdurdod yr harbwr yn rhoi rhywfaint o gyfraniad ariannol at gais Caerdydd i fod yn brifddinas diwylliant? (WAQ23751)

**Jenny Randerson:** Nid yw Awdurdod Harbwr Caerdydd yn cyfrannu unrhyw gyllid tuag at y gost o hybu cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Unig Fasnachwyr

**Alun Cairns:** Faint o unig fasnachwyr a gyflogodd bobl ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001, 2002? (WAQ23238)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Rhoddir gwybodaeth am bobl hunangyflogedig, gyda a heb weithwyr cyflog yn gweithio iddynt, yn y tabl canlynol:

| **Nifer y bobl hunangyflogedig gyda a heb weithwyr cyflog** | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Miloedd** |
| | **Cyfanswm hunangyflogedig** | **Ar eu pen eu hunain neu gyda phartner(iaid), dim gweithwyr cyflog** | **Gyda gweithwyr cyflog** |
| 1999 | 141.8 | 99.0 | 42.8 |
| 2000 | 148.8 | 109.5 | 39.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2001 | 147.8 | 108.8 | 39.0 |
| 2002 (a) | 150.4 | 106.8 | 43.6 |

(a) Ac eithrio 2002, ceir y ffigurau drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol o'r Arolwg o'r Llafurlu chwarterol am y flwyddyn yn gorffen fis Chwefror yn y flwyddyn ddilynol, h.y. 2001 yw'r flwyddyn yn gorffen Chwefror 2002. Oherwydd y data sydd ar gael, mae 2002 yn cyfeirio at y flwyddyn yn gorffen Tachwedd 2002.

**Cyflogaeth Sector Cyhoeddus yng Nghymru**

**Alun Cairns:** Faint o bobl sydd wedi cael eu cyflogi yng Nghymru yn y sector cyhoeddus ym mhob un o'r blynyddoedd: 1997, 1998, 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23240)

**Andrew Davies:** Wedi'i seilio ar amcangyfrifon o'r Arolwg o'r Llafurlu, dangosir nifer y bobl a oedd yn byw yng Nghymru a gâi eu cyflogi yn y sector cyhoeddus (yng Nghymru a mannau eraill) yn y tabl canlynol:

| **Gweithwyr yn y sector cyhoeddus, 1997 i 2002** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Miloedd** | **Canran o'r holl weithwyr** |
| 1997 | 324.9 | 31.1 |
| 1998 | 338.4 | 31.9 |
| 1999 | 341.3 | 31.5 |
| 2000 | 361.9 | 33.1 |
| 2001 | 354.0 | 32.4 |
| 2002 (a) | 358.8 | 32.3 |

Ffynhonnell: Yr Arolwg o'r Llafurlu

(a) Mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn gofyn i bobl a ydynt yn gweithio yn y sector cyhoeddus. Ac eithrio 2002, ceir y ffigurau drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol o'r arolygon chwarterol hyn am y flwyddyn yn gorffen fis Chwefror yn y flwyddyn ddilynol, h.y. 2001 yw'r flwyddyn yn gorffen Chwefror 2002. Oherwydd y data sydd ar gael, mae 2002 yn cyfeirio at y flwyddyn yn gorffen Tachwedd 2002.

Mae ffigurau am nifer y swyddi yn y sectorau gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, ac iechyd a gwaith cymdeithasol ar gael o'r cyfresi swyddi gweithwyr chwarterol.

**Busnesau Newydd a Sefydlwyd yng Nghymru**

**Alun Cairns:** Faint o fusnesau newydd a gafodd eu sefydlu yng Nghymru ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23241)

**Alun Cairns:** Sut mae cyfradd y busnesau newydd a sefydlir yng Nghymru yn cymharu â chyfradd y DU ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001, 2002? (WAQ23249)

**Andrew Davies:** Dangosir gwybodaeth am y busnesau a gofrestrodd ar gyfer TAW yn ystod y blynyddoedd rhwng 1999 a 2001 yn y tabl canlynol. Nid oes gwybodaeth ar gael am 2002 eto.

| **Cofrestriadau TAW yng Nghymru, 1999 i 2001** | | | |
|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Cofrestriadau** | **Cyfradd gofrestru (%) (a)** | **Cyfradd gofrestru o'i chymharu â'r DU (DU=100)** |
| **1999** | 5,995 | 8.0 | 74 |
| **2000** | 6,190 | 8.3 | 75 |
| **2001** | 6,000 | 8.1 | 77 |

(a) Y cyfraddau cofrestru yw'r cofrestriadau TAW fel canran o'r stoc ym mis Ebrill yn y flwyddyn honno.

**Swyddi a Grëwyd drwy Fewnfuddsoddi**

**Alun Cairns:** Faint o swyddi a grëwyd drwy fewnfuddsoddi ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001, 2002? (WAQ23242)

**Andrew Davies:** Cofnododd Awdurdod Datblygu Cymru y niferoedd canlynol o swyddi newydd a gafodd eu sicrhau yn y blynyddoedd calendr perthnasol:

| | |
|---|---|
| 1999 | 7,738 |
| 2000 | 9,885 |
| 2001 | 6,837 |
| 2002 | 3,817 |

Mae buddsoddi uniongyrchol o dramor wedi gostwng yn sylweddol yn fyd eang dros y blynyddoedd diwethaf, ond cynyddodd cyfran Cymru o'r prosiectau sy'n dod i'r DU i 7.9 y cant yn 2001-02, sy'n fwy na'n 'cyfran o'r boblogaeth'.

**Cwmnïau Allforio Cymreig**

**Alun Cairns:** Faint o gwmnïau Cymreig sydd wedi allforio ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23243)

**Andrew Davies:** Nid oes ffigurau cynhwysfawr am nifer y cwmnïau Cymreig sy'n allforio mewn unrhyw flwyddyn benodol. Ffigurau chwarterol a gyhoeddir gan Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi ac ni ellir eu hadio yn syml at ei gilydd, gan fod llawer o gwmnïau yn allforio mewn mwy nag un chwarter. Yn ychwanegol at hynny, cyhoeddir y ffigurau am allforion i'r UE ac allforion y tu allan i'r UE ar wahân—eto, ni ellir adio'r ffigurau hyn at ei gilydd, gan y byddai hynny'n golygu cyfrif cwmnïau sy'n allforio i'r naill ardal a'r llall ddwywaith. Daw'r ffigurau ar gyfer yr UE o system ystadegau masnachu fewnol y Gymuned—Intrastat—ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cynnwys unrhyw gwmnïau sy'n allforio llai na £233,000 y flwyddyn.

**Gwariant ar Ymchwil a Datblygu**

**Alun Cairns:** Beth sydd wedi cael ei wneud i gynyddu cyfran yr ymchwil a'r datblygu ar gyfer y DU a wneir yng Nghymru ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23244)

**Andrew Davies:** Y mae'r tabl canlynol yn rhoi cyfran y gwariant ymchwil a datblygu ar lefel y DU a roddwyd ar waith yng Nghymru yn 1998, 1999 a 2000. Ni fydd gwybodaeth lawn am 2001 ar gael tan ddiwedd mis Mawrth, er bod ffigurau 2001 am wariant ymchwil a datblygu busnes wedi cael eu cynnwys.

| **Gwariant Ymchwil a Datblygu, Cymru a'r DU: 1999 i 2001** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Symiau mewn £ miliynau** |
| | **1998** | **1999** | **2000** | **2001** |
| **Cymru** | | | | |
| Busnes (a) | 125 | 203 | 144 | 136 |
| Llywodraeth (b) | 51 | 47 | 65 | -/- |
| Sefydliadau AU | 113 | 129 | 139 | -/- |
| **Cyfanswm (a)** | **289** | **379** | **348** | **-/-** |
| Busnes, fel % o'r cyfanswm | 43 | 54 | 41 | -/- |
| **Y DU** | | | | |
| Busnes | 10,231 | 11,302 | 11,510 | 12,682 |
| Llywodraeth (b) | 2,073 | 1,788 | 2,134 | -/- |
| Sefydliadau AU | 3,040 | 3,341 | 3,633 | -/- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **15,344** | **16,431** | **17,277** | **-/-** |
| Busnes, fel % o'r cyfanswm | 67 | 69 | 67 | -/- |
| **Cymru fel canran o'r DU** | | | | |
| Busnes (a) | 1.2% | 1.8% | 1.3% | 1.1% |
| Llywodraeth (b) | 2.5% | 2.6% | 3.0% | -/- |
| Sefydliadau AU | 3.7% | 3.9% | 3.8% | -/- |
| **Cyfanswm (a)** | **1.9%** | **2.3%** | **2.0%** | **-/-** |

Ffynonellau:
1998, 1999 a 2000 o'r Tueddiadau Rhanbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol;
2001 o'r Arolwg o Ymchwil a Datblygu Menter Busnes, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r symbol -/- yn dangos nad oes data ar gael.

(a) Mae'r ffigur uwch i fusnes ac ymchwil a datblygu drwyddo draw yng Nghymru yn 1999 i'w briodoli i'r ffaith yr estynnwyd prosiect penodol a wnaed gan un cwmni, a daeth i ben ers hynny.
(b) Mae'r ffigurau yn cynnwys amcangyfrifon o wariant ymchwil a datblygu'r GIG ac awdurdodau lleol.

**Creu Swyddi**

**Alun Cairns:** Faint o swyddi newydd net a grëwyd yng Nghymru ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23245)

**Alun Cairns:** Faint o swyddi newydd net a grëwyd yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23246)

**Alun Cairns:** Faint o swyddi newydd net a grëwyd yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i bobl dros hanner cant oed ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23247)

**Andrew Davies:** Dengys y tabl canlynol y newid mewn cyflogaeth ym mhob blwyddyn, wedi'i fesur yn nhermau'r newid dros y flwyddyn yng nghyfartaledd pob chwarter yn nifer y gweithwyr cyflogedig a'r gweithwyr hunangyflogedig 16 oed a throsodd. Daw'r data o'r Arolwg o'r Llafurlu a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

O'i chymharu â'r cyfartaledd yn 1999, yr oedd cyflogaeth dros y pedwar chwarter yn gorffen ym mis Tachwedd 2002 wedi cynyddu o 36,000 drwy Gymru gyfan ac o 22,000 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Mae gwybodaeth fwy amserol, sy'n defnyddio diffiniad ychydig ehangach o gyflogaeth, ar gael yn natganiad misol Ystadegau'r Farchnad Lafur, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hwn yn dangos bod cyflogaeth dros y tri mis hyd at fis Rhagfyr 2002 61,000 yn uwch nag yn yr un cyfnod flwyddyn ynghynt a 70,000 yn uwch nag yn yr un cyfnod yn 1999.

| **Newid mewn cyflogaeth bob blwyddyn (a)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Ffigurau mewn miloedd** |
| | **1999** | **2000** | **2001** | **2002 (b)** | **Newid er 1999** |
| **Cymru** | | | | | |
| Cyfanswm | 15 | 19 | -2 | 19 | 36 |
| Pobl 50 oed a throsodd | 19 | 5 | 15 | 4 | 24 |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | |
| Cyfanswm | -12 | 11 | 5 | 6 | 22 |
| Pob 50 oed a throsodd | 1 | 7 | 21 | -5 | 23 |
| **Gweddill Cymru** | | | | | |
| Cyfanswm | 27 | 7 | -7 | 13 | 14 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pobl 50 oed a throsodd | 19 | -1 | -6 | 9 | 1 |

Ffynhonnell: Yr Arolwg o'r Llafurlu, y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

(a) Mae'r newid mewn cyflogaeth yn cael ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng cyfartaledd nifer y gweithwyr cyflog a'r gweithwyr hunangyflogedig 16 oed a throsodd dros y pedwar chwarter yn y flwyddyn dan sylw a'r ffigur cyfatebol am y flwyddyn flaenorol. O fewn yr Arolwg o'r Llafurlu, diffinnir blwyddyn fel y cyfnod yn rhedeg o fis Mawrth yn y flwyddyn dan sylw i fis Chwefror yn y flwyddyn ddilynol.
(b) Nid oes data ar gyfer 2002 yn ei chyfanrwydd ar gael eto. Y ffigur a roddir yma yw'r newid rhwng y cyfartaledd pedwar chwarter yn gorffen ym mis Tachwedd 2002 a'r cyfartaledd pedwar chwarter am 2001.

## LG Electronics ac LG Semicon

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'n unigol bob cymorth ariannol a gafodd LG Electronics o goffrau cyhoeddus? (WAQ23287)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'n unigol bob cymorth ariannol a gafodd LG Semicon o goffrau cyhoeddus? (WAQ23288)

**Alun Cairns:** Faint o arian a dalwyd i LG Semicon yn dilyn y cynnig i ddenu'r cwmni fel mewnfuddsoddwr? (WAQ23289)

**Alun Cairns:** Faint o arian a gynigiwyd i LG Semicon wrth geisio denu'r cwmni fel mewnfuddsoddwr? (WAQ23291)

**Alun Cairns:** Faint o arian a gynigiwyd i LG Electronics wrth geisio denu'r cwmni fel mewnfuddsoddwr? (WAQ23292)

**Andrew Davies:** Yn 1997, cydlynodd y Swyddfa Gymreig fel yr oedd ar y pryd gynigion cyllido oddi wrth y sector cyhoeddus o £129.5 miliwn i LG Electronics a £117.5 miliwn i LG Semicon. Yr oedd y pecyn cyfun o £247 miliwn yn cynnwys:

- cymorth rhanbarthol dewisol o £69.5 miliwn;
- gwaith seilwaith gwerth £10 miliwn wedi'i gyllido gan Awdurdod Datblygu Cymru;
- grantiau eiddo o £118.9 miliwn oddi wrth Awdurdod Datblygu Cymru;
- cymorth gwerth £17 miliwn i ddatbygu'r safle;
- tir gwerth £14.2 miliwn; a
- chymorth hyfforddi gwerth hyd at £17.6 miliwn.

Yr oedd hyn mewn perthynas â buddsoddiad disgwyliedig o dros £1.6 biliwn a 6,100 o swyddi.

## LG Electronics

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r dyddiadau y gwnaethpwyd taliadau i LG Electronics? (WAQ23290)

**Andrew Davies:** Y mae cwmnïau sy'n delio â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i fanylion megis dyddiadau a symiau taliadau gael eu trin yn gyfrinachol.

**LG Semicon (Cymorth Gwladol Ewrop)**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau na thorrwyd rheolau cymorth gwladol Ewrop mewn perthynas ag unrhyw daliadau i LG Electronics ac LG Semicon? (WAQ23293)

**Andrew Davies:** Cyfeiriwyd y pecyn cymorth i LG at y Comisiwn Ewropeaidd fel hysbysiad ad hoc oherwydd maint y prosiect. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hysbysu'r comisiwn am hynt y prosiectau.

**Cymorth Grant a Gynigiwyd i LG**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth grant a gynigiwyd i LG? (WAQ23294)

**Andrew Davies:** Yn dilyn cyhoeddi bwriadau'r Swyddfa Gymreig gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus William Hague AS, cafodd pecyn cymorth i LG Semicon ac LG Electronics ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 1997. Ers hynny, cafwyd buddsoddi sylweddol gan y sector preifat yn safle Casnewydd ar ffurf isadeiledd, adeiladau ac offer, gyda chymorth oddi wrth y sector cyhoeddus.

Crëwyd nifer sylweddol o swyddi gan LG Electronics ac, yn ddiweddarach, gan y fenter ar y cyd, LG Philips Displays, ond mae anwadalrwydd y sector lled-ddargludyddion a materion yn economi Corea wedi golygu nad aeth y gwaith lled-ddargludyddion rhagddo i ddechrau cynhyrchu.

**Nifer y Twristiaid yn Ymweld â Chymru**

**Alun Cairns:** Beth fu'r cynnydd yn nifer y twristiaid yn ymweld â Chymru a beth oedd cyfanswm yr ymweliadau bob blwyddyn ym mhob un o'r blynyddoedd: 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23329)

**Andrew Davies:** Dangosir gwybodaeth am nifer y twristiaid a ymwelodd â Chymru isod.

Er nad yw'r ffigurau am flwyddyn 2002 yn ei chyfanrwydd ar gael eto, bu cynnydd o 5 y cant mewn ymweliadau domestig o fewn y DU â Chymru yn y cyfnod o fis Ionawr hyd at a chan gynnwys mis Tachwedd 2002 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid yw'r ffigurau am ymwelwyr o dramor yn ymweld â Chymru yn ystod 2002 ar gael eto. Oherwydd newidiadau yn y fethodoleg arolygu, nid oes data cyson sy'n dangos tueddiadau ar gael am y cyfnod rhwng 1999 a 2002:

| | Ymweliadau Domestig (DU) (m) | Ymweliadau o Dramor (m) | Cyfanswm (m) | % Newid |
|---|---|---|---|---|
| **1999** | 10.9 | 1.0[1] | 11.9 | 13 |
| **2000** | 13.4[2] | 1.0 | 14.4 | 21 |
| **2001** | 11.6 | 0.9 | 12.5 | -13[4] |
| **2002** | 11.2[3] | - | - | - |

1 Mae newidiadau ym methodoleg yr arolwg teithwyr rhyngwladol o 1999 yn golygu na ellir gwneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

2 Mae newidiadau ym methodoleg arolwg twristiaeth y Deyrnas Unedig 2000 yn golygu na ellir, o flwyddyn 2000, wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

3 Ymweliadau domestig (DU) (O fis Ionawr hyd at a chan gynnwys mis Tachwedd).

4 Yn adlewyrchu effaith clwy'r traed a'r genau ac 11 Medi.

Ffynonellau:

- arolwg twristiaeth y Deyrnas Unedig;
- arolwg teithwyr rhyngwladol.

**Lefel y Buddsoddiad mewn Busnesau yng Nghymru**

**Glyn Davies:** Beth oedd lefel y buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ23469)

**Andrew Davies:** Nid oes ffigurau am y buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf ar gael. Mae ffigurau am y gwariant cyfalaf net yng Nghymru ar gael o'r ymchwiliad busnes blynyddol am y blynyddoedd rhwng 1998 a 2000. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn gyflawn ac nid yw'n bosibl gwahanu buddsoddiad busnesau oddi wrth fuddsoddiad y llywodraeth.

**Ffonau Symudol y Drydedd Genhedlaeth**

**Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i alluogi ffonau symudol y drydedd genhedlaeth i gyfathrebu'n llawn, a hynny'n fuan, ym mhob rhan o Gymru? (WAQ23497)

**Andrew Davies:** Yr oedd lansio rhwydwaith y drydedd genhedlaeth yn y DU yn gynharach yn y mis yn newyddion cyffrous iawn. Mae posibiliadau rhwydweithiau'r drydedd genhedlaeth yn enfawr; mae iddynt y potensial i chwyldroi nid yn unig y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ond hefyd allu busnesau a defnyddwyr i fasnachu drwy gyfrwng ffonau symudol.

O gofio nad yw marchnad y drydedd genhedlaeth ond yn ei babandod ac o ystyried yr ansicrwydd ar hyn o bryd, ynghyd â'r amheuon sy'n dal i fodoli ynglŷn â lefel y galw o du cwsmeriaid, mae'n debygol mai'n gymharol araf y bydd pobl yn manteisio ar wasanaethau'r drydedd genhedlaeth ar y dechrau. Mae hyn yn arbennig o wir gan nad yw'r diwydiant eto wedi datblygu cymwysiadau a fydd yn hudo pawb.

Tra bo Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu seilwaith telathrebu o'r radd flaenaf yng Nghymru, nid cyfrifoldeb y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn unig yw sicrhau bod gwasanaeth megis y drydedd genhedlaeth, sydd newydd gael ei lansio, yn cael ei ddarparu'n gyflymach a bod pobl yn manteisio arno'n gyflymach.

Ystyriaethau buddsoddi a masnachol i'r cwmnïau a'r defnyddwyr perthnasol yw penderfyniadau ynglŷn â dosbarthiad gwasanaethau'r drydedd genhedlaeth, a'r nifer sy'n manteisio arnynt, yn eu hanfod. Mae'n briodol i'r Llywodraeth weithredu i gywiro methiant y farchnad i hybu gweithgarwch yn y farchnad lle mae bylchau amlwg a chlir yn y ddarpariaeth, fel yr ydym yn ei wneud drwy roi cynllun gweithredu Band Eang Cymru ar waith, ac mae modd i'r drydedd genhedlaeth fod yn rhan o'r broses honno. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol i'r Llywodraeth weithredu yn lle'r buddiannau masnachol a buddsoddi hynny sydd ar waith yn y farchnad newydd sy'n datblygu ar gyfer y drydedd genhedlaeth.

**Delyn**

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru'r polisïau o fewn ei faes cyfrifoldeb sydd wedi gwella ansawdd bywyd pobl Delyn? (WAQ23498)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru'r llwyddiannau polisi y mae wedi'u cael yn Nelyn? (WAQ23499)

**Andrew Davies:** Y mae fy mholisïau wedi cael eu nodi yn 'Cymru'n Ennill'. Nod y cyhoeddiad hwnnw yw cynyddu ffyniant ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys Delyn. Caiff adroddiad cynnydd blynyddol llawn ei gyhoeddi yn gynnar yn haf 2003.

Dengys tystiolaeth ddiweddar fod polisïau Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n dda yng ngogledd Cymru. Yn y pedair blynedd hyd at Ionawr 2003, gostyngodd nifer y sawl sy'n hawlio budd-daliadau

diweithdra yng ngogledd Cymru (Ynys Môn, Caernarfon, Conwy, De Clwyd, Gorllewin Clwyd, Dyffryn Clwyd, Alun a Glannau Dyfrdwy, Delyn, Wrecsam) 34 y cant, ac yr oedd y gostyngiad yn Nelyn yn 36 y cant.

### Awdurdod Twristiaeth Prydain

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Awdurdod Twristiaeth Prydain ynghylch marchnata Cymru? (WAQ23501)

**Andrew Davies:** Prif rôl Awdurdod Twristiaeth Prydain yw marchnata Prydain dramor fel cyrchfan i dwristiaid. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â chytundeb cyllido Awdurdod Twristiaeth Prydain, sy'n nodi amryw o fesurau a thargedau i Awdurdod Twristiaeth Prydain. Mae'r ad-drefnu diweddar ar Awdurdod Twristiaeth Prydain wedi cryfhau'r broses ymgynghori hon ymhellach, ac yr ydym yn gobeithio gwella'r mesurau a'r targedau er mwyn gallu canfod effaith gweithgareddau Awdurdod Twristiaeth Prydain mewn perthynas â Chymru. Yr wyf yn cael gwybodaeth reolaidd gan Awdurdod Twristiaeth Prydain am ei weithgareddau.

Yr wyf hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â chadeirydd Bwrdd Croeso Cymru, sy'n aelod yn rhinwedd ei swydd o Awdurdod Twristiaeth Prydain. Yn y cyfarfodydd hyn yr ydym yn trin amryw o faterion twristiaeth, gan gynnwys sut y mae Bwrdd Croeso Cymru yn defnyddio ei bwerau marchnata dramor a'i gyllid ei hun i adeiladu ar weithgareddau marchnata ehangach Awdurdod Twristiaeth Prydain.

### Cynhadledd ar Dwristiaeth

**Nick Bourne:** Pam na chafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei gynrychioli yn y gynhadledd ar dwristiaeth a drefnwyd gan Awdurdod Twristiaeth Prydain y llynedd? (WAQ23502)

**Andrew Davies:** Cefais wahoddiad i fynd i'r bedwaredd gynhadledd ar dwristiaeth (a drefnwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, nid Awdurdod Twristiaeth Prydain) ond gyda chyfnod cymharol fyr o rybudd. Yn anffodus, golygai hyn nad oedd yr ymrwymiadau yn fy nyddiadur yn fy ngalluogi i fod yn bresennol, nac i drefnu dirprwy.

Fodd bynnag, er nad oedd modd imi fynd i'r brif gynhadledd, cymerais ran mewn cyfarfod cysylltiol o Weinidogion twristiaeth y DU drwy gyswllt fideo ddeuddydd yn ddiweddarach, a oedd yn cynnwys cyflwyniad gan brif weithredwr Awdurdod Twristiaeth Prydain.

### Marchnata Cymru Dramor y Llynedd

**Nick Bourne:** Faint o arian y gwnaeth Awdurdod Twristiaeth Prydain ei wario ar farchnata Cymru dramor y llynedd? (WAQ23503)

**Andrew Davies:** Corff trawsffiniol yw Awdurdod Twristiaeth Prydain a'i ddiben yw marchnata Prydain dramor fel cyrchfan ddeniadol i ymwelwyr. Nid yw'n pridiannu arian ar gyfer gwledydd neu ranbarthau neilltuol o Brydain, ond yn hyrwyddo Prydain gyfan yn y fath fodd fel bod ei ymgyrchoedd yn cael yr effaith fwyaf bosibl o fewn marchnadoedd unigol dramor.

Mae gan Fwrdd Croeso Cymru y pŵer statudol a'r rhaglenni i farchnata Cymru fel cyrchfan i dwristiaid dramor. Yn 2002-03, mae ei gyllideb ar gyfer marchnata dramor yn fwy na £4.7 miliwn, gan gynnwys cymorth grant, arian gan yr UE a chyllid ffordd i ffyniant.

### Canolfan Alwadau Elev8 yn Rhydaman

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm yr arian cyhoeddus a ddyrannwyd i ganolfan alwadau Elev8 yn Rhydaman hyd yn hyn yn ogystal ag unrhyw arian cyhoeddus a gaiff ei ddyrannu neu'i ddefnyddio yn y dyfodol agos? (WAQ23507)

**Andrew Davies:** Cynigiwyd cymorth rhanbarthol dewisol o £1,800,000 i Elev8 Solutions Ltd ym mis Tachwedd 2001. Cafodd hyn ei gyhoeddi yn 'Labour Market Trends' ym mis Gorffennaf 2002. Bydd y cwmni'n creu 200 o swyddi newydd mewn canolfan cysylltiadau cwsmeriaid 19,000 tr sg sydd wedi'i chodi'n bwrpasol, a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Ariannwyd y gwaith o gyflenwi ffitiadau yn y ganolfan gan Awdurdod Datblygu Cymru.

Mae ceisiadau hawlio taliadau yn fasnachol gyfrinachol ac ni allaf felly wneud unrhyw ddatganiad ynglŷn â faint o'r cyllid y mae'r cwmni wedi'i dderbyn hyd yma.

### Hysbysebion Teledu Bwrdd Croeso Cymru

**Alun Cairns:** Ym mha ranbarthau o Loegr y darlledwyd hysbysebion teledu 'Mawredd Mawr' Bwrdd Croeso Cymru, a phryd y'u darlledwyd? (WAQ23515)

**Andrew Davies:** Dechreuodd y gyntaf o ddwy ymgyrch deledu Bwrdd Croeso Cymru 'Mawredd Mawr' ar 29 Awst 2002, gan bara pythefnos hyd at 8 Medi 2002. Cafodd yr hysbysebion teledu eu darlledu yn rhanbarthau teledu Granada, Central, HTV West, a Meridian (Dyffryn Tafwys) yn Lloegr, ac yn genedlaethol ar deledu lloeren.

Dechreuodd yr ail ymgyrch gyda rhaglansiad pythefnos ar S4C a HTV Wales ym mis Rhagfyr 2002, gyda'r hysbysebion yn cael eu darlledu yn yr un rhanbarthau o Loegr ac ar deledu lloeren am bedair wythnos ym mis Ionawr.

Mae Bwrdd Croeso Cymru yn cynllunio ymgyrch deledu arall am gyfnod o bythefnos ym mis Mawrth/Ebrill eleni, i'w darlledu yn yr un rhanbarthau a hefyd yn yr Alban.

### Canolfan Technium yn Abertawe

**David Lloyd:** Beth yw'r meini prawf dethol ar gyfer cwmnïau sy'n gobeithio sefydlu yn y Ganolfan Technium yn Abertawe? (WAQ23517)

**Andrew Davies:** Y mae a wnelo'r prif feini prawf er mwyn i gwmnïau gael eu dethol ar gyfer y Ganolfan Technium â chyflwyno cynllun busnes manwl, a'r dadansoddiad a wneir ohono. Rhaid i'r cynllun ddangos tair elfen allweddol:

1. rhaid i'r cwmni fod wedi'i seilio ar wybodaeth;
2. rhaid i'r cynllun busnes ddangos potensial clir i dyfu a'r gallu cynllunio angenrheidiol o safbwynt rheoli, yr elfennau technegol ac adnoddau ariannol i wireddu'r twf hwnnw; a
3. rhaid i'r busnes fod yn garedig i'r amgylchedd.

### Cynllun Adfywio Gwaith Dur Brymbo

**David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynllun adfywio gwaith dur Brymbo? (WAQ23557)

**Andrew Davies:** Y mae cyllid o £5 miliwn wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru tuag at y gwaith o adfer a datblygu safle'r hen waith dur. Mae rhywfaint o waith dymchwel cynnar wedi gael ei wneud yn barod gan Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'r llwyfandir yn cael ei sefydlogi ar hyn o bryd yn barod ar gyfer y gwaith adeiladu.

Cyfyngwyd nifer y tai yn y caniatâd cynllunio presennol i 300. Yn unol â chanllawiau cyfredol llywodraeth y DU, mae'r datblygwr, Brymbo Developments Ltd, wedi gwneud cais am i ddwysedd y tai gael ei gynyddu i 450 er mwyn defnyddio'r safle tir llwyd i'w eithaf. Cyhyd ag y rhoddir caniatâd, mae Brymbo Developments yn disgwyl dechrau ar ei ran ef o'r gwaith yn gynnar yn yr haf.

### Grŵp Rhwydweithio ‘Cynefin y Werin’

**Dafydd Wigley:** Pa gydnabyddiaeth a roddir gan adran y Gweinidog, a chan MasnachCymru Rhyngwladol, i’r grŵp rhwydweithio ‘Cynefin y Werin’, ac a ydyw’n derbyn bod ei safbwynt ar faterion economaidd, sy’n adlewyrchu ystyriaethau moesol, yn gydnaws â gwerthoedd ac egwyddorion y Cynulliad? (WAQ23678) [W]

**Andrew Davies:** Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod gan lawer o unigolion a mudiadau ar draws Cymru wahanol safbwyntiau o ran masnach deg a moesol, ac mae’n croesawu mewnbwn mudiadau fel Cynefin y Werin. Cyflwynwyd copi o bapur y grŵp ‘Wales and the World—an Ethical Economy’ mewn ymateb i broses ymgynghori gan FasnachCymru Rhyngwladol ynghylch strategaeth fasnach ryngwladol ddrafft, ac ystyriwyd ei sylwadau wrth baratoi’r strategaeth derfynol, a gyhoeddir yn fuan. Gofynnais i’r grŵp gael ei gynnwys mewn ymarferion ymgynghori ynghylch materion datblygu economaidd.

### Gwasanaeth Bmibaby o Faes Awyr Caerdydd

**Nick Bourne:** Beth yw’r gost o ran oriau gwaith a dreuliwyd gan swyddogion Bwrdd Croeso Cymru neu Awdurdod Datblygu Cymru i sicrhau gwasanaeth Bmibaby o faes awyr Caerdydd? (WAQ23692)

**Nick Bourne:** Beth yw gwerth ariannol yr oriau gwaith a dreuliwyd gan swyddogion y Cynulliad i sicrhau gwasanaethau Bmibaby ym maes awyr Caerdydd? (WAQ23700)

**Andrew Davies:** Ychydig iawn o amser a dreuliwyd gan swyddogion a dim ond am gost afresymol y gellid darparu gwybodaeth mor fanwl â hyn.

### Swyddi Amser Llawn a grëwyd gan Bmibaby

**Nick Bourne:** Sawl swydd amser llawn sydd wedi’i chreu yn uniongyrchol gan Bmibaby i bobl sy’n byw yng Nghymru yn barhaol? (WAQ23705)

**Andrew Davies:** Deallaf fod Bmibaby wedi creu 77 o swyddi amser llawn ym maes awyr rhyngwladol Caerdydd. Nid yw’n ofynnol i’r aelodau staff hyn fyw yng Nghymru ond mae’r cwmni’n dweud bod canran uchel ohonynt yn byw yn lleol oherwydd gofynion eu dyletswyddau.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Taliadau a Wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol—Elwa

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn yr holl daliadau a wnaed gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer contractau a luniodd, ac a dalwyd yn llawn a chyn derbyn derbynebau gwariant? (WAQ23252)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Fel y nodais yn fy natganiad ysgrifenedig i Aelodau’r Cynulliad yr wythnos diwethaf, materion gweithredol i’r cyngor benderfynu arnynt a bod yn atebol amdanynt yw’r contractau y mae’r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn ymrwymo iddynt, a’r taliadau a wneir gan y cyngor mewn perthynas â’r contractau hynny. Yr wyf felly wedi cyfeirio eich cwestiwn at brif weithredwr y cyngor, fel y gall roi ateb uniongyrchol i chi. Caiff copi o’i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

### Ymgynghorwyr a Ddefnyddiwyd gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion llawn am yr ymgynghorwyr a ddefnyddiwyd gan y Cyngor Cenedlaethol—ELWa mewn perthynas â materion cynllunio ac ariannu, a'r symiau a dalwyd i bob un o'r ymgynghorwyr hynny hyd yma? (WAQ23253)

**Jane Davidson:** Mater gweithredol i'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa benderfynu arno a bod yn atebol amdano yw defnyddio ymgynghorwyr. Yr wyf felly wedi cyfeirio eich cwestiwn at brif weithredwr y cyngor, fel y gall roi ateb uniongyrchol i chi. Caiff copi o'i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

### Gwybodaeth a Ddarparwyd ar Gontract Avanti

**Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi manylion y wybodaeth a ddarparwyd iddi hi a'i swyddogion gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant wrth ofyn iddi awdurdodi llunio contract gydag Avanti? (WAQ23255)

**Jane Davidson:** Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiect y Ffatri Bop ar gael i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhan o'i hymchwiliad cyfredol. Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn rhoi adroddiad ar ei chanfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio maes o law.

### Y Gweinidog yn Awdurdodi Contract Avanti

**Ieuan Wyn Jones:** A all y Gweinidog gadarnhau ei bod wedi awdurdodi'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i lunio contract gydag Avanti gwerth £4 miliwn? (WAQ23256)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at fy natganiad i Aelodau'r Cynulliad ar 26 Chwefror 2003.

### Dŵr Yfed Glân yn Ysgolion Cymru

**Ann Jones:** Pa astudiaethau a gynhaliwyd i ddarganfod i ba raddau y gall disgyblion yn ysgolion Cymru fanteisio ar gyfleusterau dŵr yfed glân? (WAQ23279)

**Jane Davidson:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw arolygon sydd wedi cael eu cynnal i'r mater hwn drwy Gymru gyfan.

### Dŵr Yfed Glân (Canllawiau)

**Ann Jones:** Pa ganllawiau y mae ysgolion unigol ac awdurdodau addysg lleol wedi'u derbyn ynghylch cynnig cyfleusterau dŵr yfed glân i ddisgyblion yn ysgolion Cymru? (WAQ23280)

**Jane Davidson:** O dan adran 22 (1) o Reoliadau Addysg (Adeiladau Ysgol) 1999, rhaid i bob ysgol fod â chyflenwad iachus o ddŵr at ddibenion domestig, gan gynnwys cyflenwad o ddŵr yfed. Mae cylchlythyr 15/99 y Swyddfa Gymreig, a anfonwyd at bob awdurdod addysg lleol, ysgol a gynhelir â grant, ysgol arbennig a phob ysgol annibynnol sydd wedi'i chymeradwyo yn rhoi canllawiau pellach ar y mater hwn.

### Dŵr Yfed Glân (Canllawiau Diwygiedig)

**Ann Jones:** A yw'r Gweinidog wedi ystyried cyhoeddi canllawiau diwygiedig i ysgolion unigol ac awdurdodau addysg lleol ar gynnig cyfleusterau dŵr yfed glân i ddisgyblion yn ysgolion Cymru? (WAQ23281)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi canllawiau'n fuan ar safonau maeth mewn prydau ysgol ac mae'n debygol y byddant yn cyfeirio at yr angen i sicrhau bod dŵr yfed yfadwy ar gael i'r holl ddisgyblion bob dydd, yn rhad ac am ddim.

## Cyfleusterau Dŵr Yfed Glân (Datganiad)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cynnig cyfleusterau dŵr yfed glân i ddisgyblion yn ysgolion Cymru? (WAQ23282)

**Jane Davidson:** Yr wyf o'r farn ei bod yn hynod bwysig sicrhau bod pob disgybl yn gallu cael dŵr yfed glân pan fydd yn yr ysgol. Mae'r farn hon yn cael ei rhannu yn yr adroddiad a baratowyd gan y grŵp 'Cau'r Bwlch ym Mherfformiad Ysgolion', a nodai fod athrawon mewn ysgolion lle mae hyn wedi cael ei wneud yn argyhoeddedig y gall hyn arwain at welliant yng nghyfnod canolbwyntio disgyblion a'u gallu i ganolbwyntio.

Dyma yn rhannol y rheswm pam fod Jane Hutt a minnau wrthi ar hyn o bryd yn ystyried dichonoldeb cydgefnogi menter beilot i ddarparu peiriannau oeri dŵr mewn rhai ysgolion yng Nghymru. Y rheswm arall wrth gwrs yw'r manteision iechyd ehangach a ddaw o yfed dŵr. Gobeithiwn y byddwn yn gallu gwneud cyhoeddiad ar y fenter hon cyn diwedd y mis.

## Myfyrwyr Tramor (Cyrsiau Addysg Uwch)

**Alun Cairns:** Beth oedd y cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr tramor a oedd yn dilyn cyrsiau addysg uwch yng Nghymru yn 1999, 2000, 2001 a 2002? (WAQ23342)

**Jane Davidson:** Y mae'r tabl isod yn nodi'r newidiadau yn niferoedd yr holl fyfyrwyr tramor a oedd yn astudio yn sefydliadau addysg uwch Cymru rhwng blynyddoedd academaidd 1998-99 a 2001-02.

| | Nifer | Newid o ran nifer ers y flwyddyn flaenorol | Newid canrannol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| 1998-99 | 12,717 | 604 | 5 |
| 1999-2000 | 12,550 | -167 | -1 |
| 2000-01 | 10,797 | -1,753 | -14 |
| 2001-02 (b) | 10,893 | 96 | 1 |
| Ffynhonnell: HEFCW—ELWa | | | |

(a) Yr holl fyfyrwyr addysg uwch o dramor a gofrestrwyd mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.
(b) Dros dro.

## Y Cyngor Cenedlaethol—ELWa ac Avanti

**Ieuan Wyn Jones:** A all y Gweinidog gadarnhau a oedd y contract rhwng y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant ac Avanti yn caniatáu iddo ddefnyddio £40,000 o'r arian a roddwyd iddo i noddi Gwobrau Cerddoriaeth y Ffatri Bop 2002? (WAQ23348)

**Ieuan Wyn Jones:** A all y Gweinidog gadarnhau bod Avanti wedi prynu'r eitemau cyfalaf canlynol fel rhan o'i gontract gyda Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant: cymysgwyr, cyfarpar ffilmio a golygu, sgriniau fideo a phlasma ac offer goleuo? (WAQ23349)

**Jane Davidson:** Fel y nodais yn fy natganiad i Aelodau'r Cynulliad yr wythnos ddiwethaf, mater gweithredol i'r cyngor benderfynu arno a bod yn atebol amdano yw'r contract y penderfynodd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa arno ac yr ymrwymodd iddo gydag Avanti mewn perthynas â phrosiect y Ffatri Bop. Yr wyf felly wedi cyfeirio eich cwestiynau at brif weithredwr y cyngor, fel y gall roi ateb uniongyrchol i chi. Caiff copi o'i ateb ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

Fel y dywedais hefyd yn fy natganiad, yr wyf yn disgwyl adroddiad oddi wrth y cyngor ar hyn o bryd am ei ran yn y prosiect, ac mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, yn rhinwedd ei swydd fel archwiliwr allanol i'r cyngor, yn cynnal ei hymchwiliad ei hun a bydd yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio maes o law.

## Cyfartaledd yr Arian a Wariwyd ar Addysg Uwch

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru fesul blwyddyn ers 1999 faint o arian a wariwyd ar gyfartaledd ar addysg uwch myfyriwr sy'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru? (WAQ23352)

**Jane Davidson:** Mewn ffigurau crwn, mae'r cyllid ar gyfartaledd fesul myfyriwr mewn addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys cyfraniadau preifat a chyhoeddus tuag at y ffïoedd hyfforddi, fel a ganlyn:

| **Blwyddyn Ariannol** | **Cyllid fesul Myfyriwr (£)** |
|---|---|
| 1998-99 | 4,560 |
| 1999-2000 | 4,710 |
| 2000-01 | 4,950 |
| 2001-02 | 5,330 |
| 2002-03 | 5,440 |

## Addysg yng Ngorllewin De Cymru

**Peter Black:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni ym maes addysg yng Ngorllewin De Cymru ers sefydlu'r Llywodraeth bartneriaeth? (WAQ23354) [R]

**Jane Davidson:** Yr ydym yn gwireddu ein hagenda ym mhob ffordd, nid dim ond yn Ne Orllewin Cymru ond ar draws Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi symud ymlaen gyda'r holl gynlluniau yr ymrwymodd iddynt yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'.

Ar draws Cymru, yr ydym wedi:

- codi safonau ar bob lefel;
- cefnogi addysg y blynyddoedd cynnar i bob plentyn tair oed lle bo'r rhieni yn dymuno hynny gydag adnoddau o £16 miliwn y flwyddyn nesaf. Yn etholaeth De Orllewin Cymru, mae hyn wedi golygu adnoddau ychwanegol o £200,000 i ddau awdurdod i gyflwyno dyddiadau derbyn cynharach yn gynt ar gyfer lleoedd y blynyddoedd cynnar a £600,000 i ganolfan integredig newydd. Mae'r ymgynghoriad newydd ynghylch cynigion i sefydlu cyfnod sylfaen yn symud agenda darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn ei blaen;
- treialu bagloriaeth Gymreig—mae dau goleg yn Ne Orllewin Cymru yn rhan o'r prosiect hwn;
- buddsoddi mewn cymorth ar gyfer addysg yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, gyda £7 miliwn ychwanegol wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar;
- buddsoddi mewn adeiladau ysgol—darparu dros £100 miliwn y flwyddyn;
- dod â'r profion statudol i blant saith oed i ben;
- cyflwyno grantiau dysgu newydd y Cynulliad;
- gosod agenda ar gyfer rhagoriaeth mewn addysg uwch yn y tymor hwy yn 'Ymgeisio yn Uwch'; a
- galluogi pawb i fanteisio ar hyfforddiant sgiliau.

## Cost Ymweliadau Addysgol gan Ysgolion yng Nghymru

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyrannu talebau i dalu costau ymweliadau addysgol gan ysgolion yng Nghymru? (WAQ23471)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 6 Chwefror 2003 i WAQ22490.

## Dosbarthu Deunydd Darllen yr Undebau Llafur ar Berthnasau Diwydiannol

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthu deunydd darllen yr undebau llafur ar berthnasau diwydiannol, ynghyd â gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, o fewn ysgolion? (WAQ23472)

**Jane Davidson:** Mater i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion unigol yw hwn.

**Cyrsiau Hyfforddi Athrawon Addysg Bellach**

**Peter Black:** Pa drefniadau sy'n bodoli i gyllido myfyrwyr sydd ar gyrsiau hyfforddi athrawon addysg bellach? (WAQ23473)

**Jane Davidson:** Gall rhai myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddi athrawon addysg bellach fod yn gymwys i hawlio'r bwrsariaeth o £6,000 o dan fenter i hyfforddi athrawon. Cynigir y fwrsariaeth fel rhan o'r dystysgrif addysg (addysg bellach) i raddedigion a gellir ei hawlio tra bo'r myfyriwr ar y cwrs.

Dim ond myfyrwyr amser llawn sy'n bodloni'r gofynion preswylio ac yn astudio cyrsiau'r dystysgrif ôl-raddedig (addysg bellach) mewn sefydliad achrededig yng Nghymru sy'n gymwys. Gwneir y taliadau mewn naw rhandaliad cyfartal ar hyd y flwyddyn ac fe'u telir drwy'r sefydliad sy'n darparu'r cwrs. Mae cynllun peilot y fwrsariaeth, a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer blynyddoedd academaidd 2001-02 a 2002-03, wedi cael ei ymestyn, at ddibenion gwerthuso, i gynnwys blwyddyn academaidd 2003-04.

Gall rhai athrawon ysgol ac addysg bellach newydd sy'n dod i mewn o'r proffesiwn o fis Gorffennaf 2002 elwa o'r cynllun i ad-dalu benthyciadau athrawon. Cynllun peilot yw hwn ar gyfer dechreuwyr sy'n dysgu pwnc dynodedig lle mae prinder ym mlynyddoedd academaidd 2002-03, 2003-04 a 2004-05 ac sy'n ymgymryd â swydd yng Nghymru neu Loegr mewn sefydliad penodedig.

O dan y cynllun, mae modd i swm llawn y benthyciad myfyriwr sy'n ddyledus gan athrawon gael ei ad-dalu, os ydynt yn gweithio amser llawn ac yn aros mewn swydd gymwys am 10 mlynedd i athrawon amser llawn sydd â benthyciadau o'r math newydd sy'n ddibynnol ar incwm neu tua pump i saith mlynedd i'r rheini sydd â benthyciadau o'r hen fath o forgais. Bydd athrawon rhan-amser yn derbyn budd pro-rata.

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i dalu ffioedd myfyrwyr ar rai cyrsiau hyfforddi athrawon, gan gynnwys y dystysgrif ôl-raddedig (addysg bellach) a chyrsiau tystysgrif addysg.

Efallai y bydd myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau nad ydynt yn gyrsiau ôl-radd, megis y dystysgrif addysg a chwrs tystysgrif 7303 City and Guilds i athrawon addysg bellach ac addysg oedolion, yn gymwys i gael grant dysgu gan y Cynulliad.

Yn olaf, gall pob myfyriwr wneud cais am gymorth ychwanegol oddi wrth eu colegau drwy'r cronfeydd cyllid wrth gefn. Y coleg fydd yn penderfynu pa un a fydd y myfyriwr yn cael help, a faint o help. Os nad oes cymorth myfyrwyr nac unrhyw gyllid arall ar gael, gallant wneud cais am fenthyciad datblygu gyrfa, sef benthyciad banc gydag ad-daliadau gohiriedig a gynigir gan rai o fanciau'r stryd fawr mewn partneriaeth â'r Adran Addysg a Sgiliau.

**Achosion Cyfreithiol a Ddygir yn Erbyn Awdurdodau Addysg Lleol**

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i fonitro nifer yr achosion cyfreithiol a ddygir yn erbyn awdurdodau addysg lleol? (WAQ23474)

**Jane Davidson:** Dim. Mater i'r awdurdodau lleol unigol yw hwn.

**Darpariaeth ar gyfer Plant sy'n Hollol Fyddar**

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant sy'n hollol fyddar ledled Cymru? (WAQ23475)

**Jane Davidson:** Y mae canfod buan, ynghyd ag ymyrraeth fuan effeithiol, yn ganolog i gyflenwi darpariaeth addysgol briodol i blant hollol fyddar. Atgyfnerthir y neges hon yng nghod ymarfer Cymru ar anghenion addysgol arbennig, a ddaeth i rym fis Ebrill diwethaf.

Yn unol â'r ymdriniaeth hon, yr wyf wedi ariannu RNID Cymru i achwilio'r ddarpariaeth gwasanaethau nam ar y clyw i'r grŵp oedran rhwng geni a dwy flwydd oed. Mae'r astudiaeth bwysig hon i fod i gael ei chwblhau dros yr wythnosau nesaf a bydd yn help i roi darlun cliriach o'r ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael yn y cyfnod cynnar hwn. Hefyd, fel rhan o waith y grŵp llywio cenedlaethol ar addysg anghenion arbennig yng Nghymru, yr wyf wedi gofyn iddo, ar y cyd â'r rhanddeiliaid allweddol, archwilio'r gwasanaethau a'r ddarpariaeth addysgol i blant dros ddwy oed sydd â nam ar eu golwg. Yr wyf yn argyhoeddedig y gall y naill a'r llall o'r archwiliadau hyn chwarae rhan bwysig yn llywio'r ddarpariaeth ymyrraeth addysgol i blant â nam ar eu clyw yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae Jane Hutt a minnau wedi gwneud ein hymrwymiad i gyflwyno'r rhaglen i sgrinio clyw babanod newydd-anedig ar draws Cymru yn glir. Bydd y rhaglen sgrinio, wrth gwrs, yn arwain at ganfod namau clyw yn llawer cynt. Mae'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn prysur fynd rhagddo ac mae'n cael ei gyd-drefnu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

O ran hyfforddiant, rhaid i bob athro sy'n dysgu plant sydd â nam ar eu clyw feddu ar gymhwyster mandadol a gymeradwywyd gan y Cynulliad i'r diben o ddysgu plant â nam ar eu clyw, yn ogystal â bod yn athro/athrawes c/gymwysedig. Rhaid ennill y cymhwyster hwn o fewn tair blynedd iddynt ymgymryd â'u swydd. Mae fy swyddogion yn cwrdd â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i sicrhau bod systemau digonol wedi cael eu sefydlu i fonitro bod y cymwysterau mandadol hyn wedi cael eu hennill.

Mae cyllid wedi cael ei ddarparu hefyd drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant i athrawon (a chynorthwywyr cymorth dysgu) plant ag anghenion addysgol arbennig ymgymryd â hyfforddiant perthnasol. Hefyd, o dan y trefniadau grantiau cynnal addysg a hyfforddiant cyfredol, gall awdurdodau addysg lleol wneud cais am gyllid tuag at gymorth amlsynhwyraidd.

**Hawliau Disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei pholisïau ar gefnogi hawliau disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig? (WAQ23476)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn llwyr gefnogi hawl disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig i fwynhau profiad addysgol llawn ac eang sy'n eu helpu i wireddu eu potensial. Mae'r polisïau yr wyf wedi'u sefydlu ers imi ddod yn Weinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi'u bwriadu i gyrraedd y nod hwn a byddant yn parhau i ddymchwel unrhyw rwystrau a allai lesteirio plant ag AAA rhag gwireddu'r potensial hwnnw.

Fis Ebrill diwethaf lansiais y cod ymarfer AAA i Gymru. Hwn yw'r cod ymarfer cyntaf o'r fath i Gymru. Un o'r egwyddorion creiddiol sy'n sail iddo yw y dylai anghenion plant sydd ag AAA gael eu diwallu. Rhaid i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol roi sylw i'r cod ymarfer wrth asesu addysg anghenion arbennig plant a phenderfynu ar a chyflenwi darpariaeth addysgol sydd wedi'i theilwra ar gyfer anghenion penodol pob plentyn. Mae'r cod yn cyfeirio'n benodol hefyd at hawl rhieni a phlant i gael pobl i wrando ar eu barn a'u dewisiadau.

Yr wyf hefyd wedi ymgeisio'n llwyddiannus am y ddeddfwriaeth alluogi angenrheidiol fel bod modd sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig i Gymru. Caiff y tribiwnlys ei sefydlu o fis Ebrill eleni a bydd yn dechrau ystyried apeliadau o 1 Medi.

Fis Ebrill y llynedd, sefydlais y grŵp llywio cenedlaethol ar gyfer AAA yng Nghymru. Fel rhan o waith y grŵp llywio, mae tri swyddog datblygu wrthi ar hyn o bryd, ar y cyd ag amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws llywodraeth leol a'r sectorau statudol a gwirfoddol, yn ystyried a chynllunio sut mae cyd-drefnu'r ffordd y cyflenwir y ddarpariaeth AAA ar draws Cymru.

Bydd y grŵp llywio yn ymdrin â materion yn ymwneud ag archwilio a darparu ar gyfer anghenion addysgol arbenigol llai cyffredin a sut mae cyflenwi darpariaeth o'r fath yn fwyaf effeithiol. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn ymdrin ag amryw o feysydd llawn her, gan gynnwys datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer awtistiaeth ac adolygu'r ddarpariaeth therapi iaith a lleferydd addysgol a gwneud argymhellion ynglŷn â dyfodol y ddarpariaeth.

Nid wyf ond yn rhy ymwybodol o'r anawsterau o gynnal darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag AAA llai cyffredin ac, eto, ymgeisiais yn llwyddiannus yn Neddf Addysg 2002 am ddarpariaeth i roi pwerau i'r Cynulliad i helpu i hwyluso darpariaeth ranbarthol gynhwysfawr ar draws Cymru, pe bai angen hynny. Yr ydym yn awyddus i ystyried patrymau'r ddarpariaeth ranbarthol ac annog cydweithredu strategol rhwng AALlau Cymru.

Yn unol â'r cysyniad hwn o ddarpariaeth ranbarthol, yr wyf wedi darparu £2 filiwn i ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn fel canolfan ragoriaeth ranbarthol i blant awtistig yng ngogledd Cymru a £350,000 pellach fel bod modd rhoi safle Gwynfryn gerllaw yn rhodd, gan y bydd hynny'n golygu y gellir darparu'r cyfleusterau atodol angenrheidiol. Fy mwriad pendant yw y dylai Ysgol Plas Brondyffryn ddod yn dempled i ddatblygiadau cyffelyb ar draws Cymru ar gyfer holl ystod anhwylderau'r sbectrwm AAA.

Yn olaf, yr wyf yn awyddus i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion hwn mewn ffordd gwbl gynhwysol fel bod anghenion disgyblion sydd ag AAA yn cael eu diwallu. Yr wyf yn falch o ddweud i'm swyddogion gwrdd â chydweithwyr o bob AALl yng Nghymru yn gynharach y mis hwn mewn cynhadledd ddeuddydd i drafod materion allweddol yn effeithio ar blant sydd ag AAA. Cafodd y ffordd hon o weithredu groeso cynnes gan y rhanddeiliaid i gyd.

### Bwyta'n Iach mewn Ysgolion yng Nghymru

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi ei barn hi ar ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ23477)

**Jane Davidson:** Y mae bwyta'n iach mewn ysgolion yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo drwy'r safonau maeth ar gyfer prydau ysgol sydd wedi'u sefydlu erbyn hyn, a byddant yn cael eu monitro gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru.

Mae dros 500 o ysgolion yn cymryd rhan yn rhwydwaith cynllun ysgolion iach Cymru, ac mae llawer o'r rhain yn gweithredu ar faterion maeth. Mae dros eu hanner wedi sefydlu siopau ffrwythau ar sail clirio'u costau. Mae cynlluniau peilot ar becynnau bwyd iach ac opsiynau iach mewn peiriannau gwerthu yn cael eu cynnal yn Sir Benfro a bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu drwy'r wlad.

Mae 'Food and Well Being—Reducing Inequalities through a Nutrition Strategy for Wales', y cynllun gweithredu a lansiwyd gan y Cynulliad yng nghyswllt ei strategaeth faeth yn ddiweddar, yn nodi babanod, plant a phobl ifanc fel un o'r grŵpiau allweddol y rhoddir blaenoriaeth iddo o ran gweithredu.

### Darpariaeth Addysgofal Cyfrwng Cymraeg

**Owen John Thomas:** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer addysgofal cyfrwng Cymraeg amser llawn i blant dan dair oed gan bartneriaethau difasnachol? (WAQ23478) [W]

**Jane Davidson:** O fis Ebrill 2003 ymlaen, bydd Cymorth—y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc—yn gallu darparu cymorth wedi'i dargedu at deuluoedd, a hynny ym meysydd datblygiad cynnar plant a datblygu'r ddarpariaeth gofal plant. Bydd y gronfa hon yn disodli grantiau presennol y rhaglen Cychwyn

Cadarn a grantiau'r strategaeth gofal plant cenedlaethol. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cydweithio gyda phartneriaethau plant ledled Cymru, gan ddarparu gofal dydd nid-er-elw, neu Cylchoedd Ti a Fi, drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Mudiad Ysgolion Meithrin hefyd yn weithgar mewn sawl maes yn cefnogi'r rhaglen canolfannau integredig, a all ddwyn y gwahanol elfennau hyn ynghyd.

**Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Plant Tair Oed**

**Owen John Thomas:** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud i ddarganfod lefel y galw am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant tair oed? (WAQ23479) [W]

**Jane Davidson:** Y mae darparwr addas i gynnal archwiliad manwl o lefel bresennol y ddarpariaeth newydd gael ei enwi ar ôl ymarfer tendro cystadleuol. Ar ôl i'r broses gaffael gael ei chwblhau, byddwn yn rhag-weld y caiff y contract ei osod o fewn y pythefnos nesaf. Pan fydd yr archwiliad angenrheidiol wedi'i gwblhau dylai fod gennym wybodaeth digon manwl a chadarn i seilio ehangu darpariaeth o'r fath arni yn y dyfodol.

**Dysgu ac Addysgu Cymru (Prosiect y Ffatri Bop)**

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda bwrdd ELWa, un ai fel unigolion neu fel bwrdd cyflawn, parthed prosiect y Ffatri Bop? (WAQ23500)

**Jane Davidson:** Y mae'r cadeirydd wedi dweud wrthyf am y trefniadau a wnaed ar gyfer yr ymchwiliad mewnol. Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau eraill gydag aelodau Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ynglŷn â phrosiect y Ffatri Bop.

**Prosiect y Ffatri Bop (Taliadau)**

**Nick Bourne:** A wnaeth y Gweinidog awdurdodi'r taliad a wnaed ymlaen llaw i brosiect y Ffatri Bop? (WAQ23511)

**Nick Bourne:** Pryd y daeth y Gweinidog ei hun i wybod am y taliad a wnaed ymlaen llaw i brosiect y Ffatri Bop? (WAQ23512)

**Nick Bourne:** Pryd y daeth swyddogion y Gweinidog i wybod am y taliad a wnaed ymlaen llaw i brosiect y Ffatri Bop? (WAQ23513)

**Jane Davidson:** Cyfeiriaf yr Aelod at fy natganiad ysgrifenedig ar 26 Chwefror 2003. Cefais wybod gan fy swyddogion ganol Chwefror fod posibilrwydd y gallai taliad fod wedi cael ei wneud gan y cyngor cyn fod ei angen.

**Mentrau Polisi yn Nelyn**

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru ei mentrau polisi yn Nelyn? (WAQ23536)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog restru meysydd ei pholisïau sydd wedi gwella bywydau pobl Delyn? (WAQ23537)

**Jane Davidson:** Y polisïau yr ydym wedi eu dilyn o ran addysg a dysgu yng Nghymru a Delyn yw, yn fyr, rhoi'r dechrau gorau posibl i'n pobl ifanc drwy sicrhau bod gennym ysgolion rhagorol a safonau uchel a disgwyliadau uchel o bawb. Wrth ddarparu cyfleoedd dysgu i bawb yr ydym wedi gweithio tuag at ddymchwel y rhwystrau sy'n llestair rhag dysgu a sicrhau bod y dysgu hwnnw yn berthnasol i anghenion yr economi ac i fywyd dinesig Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi symud ymlaen gyda'r holl gynlluniau yr ymrwymodd iddynt yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' ac wedi llwyddo gyda'i hagenda arbennig ar gyfer Cymru. Mae'r Cynulliad wedi

- gweld safonau'n codi ar bob lefel;
- cefnogi addysg y blynyddoedd cynnar i bob plentyn tair oed, lle bo'r rhieni yn dymuno hynny, gydag adnoddau o £16 miliwn y flwyddyn nesaf. Mae'r ymgynghoriad newydd ynglŷn â chynigion ar gyfer cyfnod sylfaen yn symud yr agenda o ran darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn ei blaen;
- darparu £2.35 i ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn, Dinbych, fel canolfan ragoriaeth ranbarthol i blant o bob rhan o ogledd Cymru—gan gynnwys Sir y Fflint—sydd ag anhwylderau sbectrwm awtistig;
- treialu bagloriaeth Gymreig—mae Coleg Glannau Dyfrdwy yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn rhan o'r prosiect hwn;
- buddsoddi mewn cymorth ar gyfer addysg yn y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg—cyhoeddwyd £7 miliwn ychwanegol yn ddiweddar;
- buddsoddi mewn adeiladau ysgol—darpariaeth o dros £100 miliwn y flwyddyn ar draws Cymru. Mae Sir y Fflint wedi derbyn £6.4 miliwn er 1997, gyda dyraniad pellach o dros £1.8 miliwn ar gyfer 2003-04;
- dod â'r profion statudol i blant saith oed i ben;
- cyflwyno 'Ymestyn Hawliau';
- sefydlu partneriaethau i bobl ifanc ym mhob awdurdod lleol;
- cyflwyno grantiau dysgu newydd y Cynulliad;
- gosod agenda ar gyfer rhagoriaeth mewn AU yn y tymor hwy yn 'Ymgeisio yn Uwch'. Mae Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru wedi mynd i'r afael yn frwd â'r agenda newid yn y sector addysg uwch. Mae'n bwrw iddi'n egnïol i geisio rhagor o gydweithredu gyda Phrifysgol Cymru, Bangor, a fydd o fudd i'r staff, y myfyrwyr, y gymuned leol ac, yn wir, y gymuned ehangach yng ngogledd Cymru. Yr athrofa hefyd yw safle'r fenter Techniquest newydd yng ngogledd Cymru, gan alluogi dysgwyr ac ymarferwyr i fanteisio ar y profiad gwyddonol ymarferol byw y mae Techniquest yn ei ddarparu yng Nghaerdydd;
- galluogi pawb i fanteisio ar hyfforddiant sgiliau a chyflwyno cyfrifon dysgu personol yng Nghymru—nod y rhaglen yw darparu cyfle cyfartal i ddysgu drwy ddenu'r rhai sydd heb unrhyw gymwysterau o gwbl, neu'r rhai sydd â chymwysterau isel, tra'n cynnig cymhelliad ariannol uwch i'r rhai sydd ar incwm is; a
- chyflwyno gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd i bob oedran drwy Gyrfa Cymru.

**Llwyth Gwaith Athrawon (Cynorthwywyr yn yr Ystafell Ddosbarth)**

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa dasgau y bydd cynorthwywyr yn yr ystafell ddosbarth yn eu cyflawni fel rhan o'r cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon? (WAQ23667)

**Jane Davidson:** Bydd cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn parhau i wneud y tasgau y maent yn eu gwneud ar hyn o bryd. Yn ôl y cytundeb, cânt ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau ychwanegol yn ôl doethineb yr athro sy'n gyfrifol am y pwnc/dosbarth, ar yr amod bob amser fod yr athro yn fodlon eu bod yn gymwys ac yn alluog i wneud hynny. Mae'r cytundeb yn dweud yn glir mai athrawon cymwysedig fydd yn gyfrifol bob amser am ganlyniadau dysgu cyffredinol y disgyblion.

**Llwyth Gwaith Athrawon (Cyllid)**

**Jonathan Morgan:** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido'r cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon yn gyfangwbl, neu a fydd angen i awdurdodau lleol glustnodi adnoddau o'u cyllidebau eu hunain? (WAQ23668)

**Jane Davidson:** Ysgrifennais at yr awdurdodau lleol ynglŷn â'r angen i ystyried y mesurau yn y cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon wrth benderfynu ar gyllidebau addysg 2003-04. Yn y blynyddoedd i ddod, caiff costau'r mesurau eu cymryd i ystyriaeth yn y ffordd arferol wrth asesu'r pwysau ar gyllidebau'r awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllid o £3 miliwn y flwyddyn nesaf, a fydd yn codi i £15 miliwn yn 2005-06, ar gyfer cymorth gweinyddol ychwanegol mewn ysgolion, yn ogystal ag £1.4 miliwn dros yr un cyfnod ar gyfer rhaglen rheoli newid i helpu ysgolion i fabwysiadu arferion a fydd yn lleihau llwyth gwaith yr athrawon.

### Llwyth Gwaith Athrawon (Undebau)

**Jonathan Morgan:** A fydd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ac Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ffurfiol gyda'r Gweinidog ar y cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon, ochr yn ochr â'r sawl sydd wedi llofnodi'r cytundeb? (WAQ23670)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi dweud y byddaf yn parhau i weithio gyda'r NUT ac UCAC yn ogystal â'r undebau athrawon eraill fel rhan o'm cyfarfodydd rheolaidd gyda'r undebau.

### Llwyth Gwaith Athrawon (Cyfarfodydd gydag Undebau)

**Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag Undeb Cenedlaethol yr Athrawon ac UCAC ynghylch y cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon? (WAQ23671)

**Jane Davidson:** Cyfarfûm â'r undebau athrawon i gyd ar 14 Ionawr cyn llofnodi'r cytundeb llwyth gwaith. Cyfarfûm â hwy hefyd ar 24 Chwefror yn un o'n cyfarfodydd chwe-misol pryd y trafodwyd goblygiadau cyllido'r cytundeb, ymysg pethau eraill.

### Llwyth Gwaith Athrawon (Canllawiau)

**Jonathan Morgan:** Pa gyngor a chanllawiau a roddir i ysgolion ynghylch goblygiadau'r cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon? (WAQ23672)

**Jane Davidson:** Pan fydd y newidiadau i ddogfen tâl ac amodau athrawon ysgol ar eu gwedd derfynol, byddwn yn ystyried gyda'n partneriaid ym myd addysg, yng ngoleuni trafodaethau gyda'r rhai sydd wedi llofnodi'r cytundeb, pa gyngor a chanllawiau pellach y bydd eu hangen ar yr ysgolion. Mae'r prosiect rheoli newid y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gyllido yn 2003-04 wedi ei fwriadu i helpu'r ysgolion i ganfod a mabwysiadu mesurau i leihau llwyth gwaith yr athrawon; bydd y prosiect yn ystyried goblygiadau'r cytundeb.

### Llwyth Gwaith Athrawon (Ymghynghori)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p'un a ydyw yn bwriadu cyhoeddi dogfen ymgynghori ar y cytundeb i leihau llwyth gwaith athrawon, fel y gwnaed yn Lloegr? (WAQ23673)

**Jane Davidson:** Y mae'r cytundeb wedi cael ei lofnodi ac mae pob ysgol yng Nghymru wedi cael ei gwneud yn ymwybodol ohono. Nid wyf yn bwriadu cyhoeddi unrhyw ddogfen ymgynghori yn y dyfodol agos, er y bydd Llywodraeth y Cynulliad, wrth gwrs, yn ymgynghori yn y ffordd arferol ynglŷn â'r rheoliadau sydd i gael eu gwneud ar gyfer Cymru o dan adran 133 o Ddeddf Addysg 2002 ac ynglŷn â'r newidiadau i gylchlythyr 22/98, 'Lleihau'r Baich Biwrocrataidd ar Athrawon', sy'n rhan o'r cytundeb.

### Prosiect Techniquest yng Nghaerdydd, ac yn Wrecsam

**Dafydd Wigley:** Faint o arian a ddarperir gan y Gweinidog i hyrwyddo prosiect Techniquest (a) yng Nghaerdydd, a (b) yn Wrecsam ar gyfer y flwyddyn 2002-03 a 2003-04, ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater? (WAQ23675) [W] [R]

**Jane Davidson:** Cyhoeddir yr holl arian a roddir i Techniquest gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyllideb y Cynulliad. Ar gyfer 2002-03 rhoddwyd £950,000 i Techniquest yng Nghaerdydd, gan

gynnwys elfen i gefnogi gwaith Techniquest ar ddatblygu partneriaethau i sefydlu safle yn y Gogledd. Ar gyfer 2003-04 bydd yr arian a roddir i Techniquest, fel a nodir yng nghyllideb y Cynulliad, yn £1.772 miliwn y bydd £0.722 miliwn ohono yn gostau cyfalaf a chostau eraill sy'n gysylltiedig â safle'r Gogledd. Ni ddarperir arian yn benodol i hyrwyddo Techniquest yng Nghaerdydd nac yn y Gogledd. Yr wyf yn falch ein bod wedi gallu ymestyn y manteision o gael mynediad i Techniquest i blant ysgol, athrawon ac eraill yn y Gogledd.

### Gwasanaethau Bmibaby o Faes Awyr Caerdydd

**Nick Bourne:** Pa ran y mae ELWa wedi'i chwarae o ran sicrhau gwasanaethau cwmni awyrennau Bmibaby o faes awyr Caerdydd? (WAQ23706)

**Jane Davidson:** Nid yw'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi chwarae rhan uniongyrchol hyd yma. Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa yn cydnabod mor bwysig yw bod gweithwyr medrus ar gael, ynghyd â seilwaith addysg a hyfforddiant cefnogol. Fel rhan o ymdriniaeth Tîm Cymru, mae'r cyngor yn darparu cymorth hyfforddi i gwmnïau sy'n mewnfuddsoddi a chwmnïau sy'n bodoli'n barod o'i brif raglenni hyfforddi, ynghyd â chymorth pwrpasol pan fydd wedi derbyn cynllun hyfforddi y cytunwyd arno.

Gan nad yw Bmibaby wedi cynhyrchu cynllun hyfforddi eto, nid yw'r cyngor ond wedi darparu ffigur dangosol am y cymorth pwrpasol a allai fod ar gael.

### Bmibaby (Grantiau Uniongyrchol neu Gyllid a Ddarparwyd gan ELWa)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru'n fanwl y grantiau uniongyrchol neu'r cyllid y mae ELWa wedi'u darparu i sicrhau gwasanaethau cwmni awyrennau Bmibaby o faes awyr Caerdydd? (WAQ23707)

**Jane Davidson:** Nid yw'r cyngor wedi darparu unrhyw gymorth ariannol i'r cwmni hyd yma.

### Bmibaby (Cymorth o Ran Hyrwyddo a Ddarparwyd gan ELWa)

**Nick Bourne:** Beth yw gwerth ariannol unrhyw gymorth o ran hyrwyddo y mae ELWa wedi'i ddarparu i sicrhau gwasanaeth cwmni awyrennau Bmibaby o faes awyr Caerdydd? (WAQ23708)

**Jane Davidson:** Hysbysir fi nad yw'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi darparu unrhyw gymorth hyrwyddo i sicrhau'r gwasanaeth hwn.

### Bmibaby (ELWa a'r Oriau a Dreuliwyd gan Swyddogion)

**Nick Bourne:** Beth yw'r gost o ran yr oriau y mae swyddogion ELWa wedi'u treulio yn sicrhau gwasanaeth Bmibaby o faes awyr Caerdydd? (WAQ23709)

**Jane Davidson:** Ychydig iawn o amser a dreuliwyd gan y swyddogion a dim ond am gost afresymol y gellid darparu gwybodaeth mor fanwl â hyn.

### ELWa a Bmibaby

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae swyddogion ELWa wedi'u cynnal â Bmibaby o ran telerau unrhyw drefniadau gwarantu a allai fod wedi'u gwneud rhwng ELWa a'r cwmni awyrennau i sicrhau ei wasanaethau o faes awyr Caerdydd? (WAQ23710)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi telerau unrhyw drefniadau gwarantu sydd wedi'u gwneud rhwng ELWa a Bmibaby i sicrhau ei wasanaethau o faes awyr Caerdydd? (WAQ23711)

**Jane Davidson:** Nid yw'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath nac wedi cytuno ar unrhyw drefniadau o'r fath gyda Bmibaby.

### Bmibaby (ELWa a Refeniw Teithwyr)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng swyddogion ELWa a'r cwmni awyrennau Bmibaby o ran y posibilrwydd y gallai ELWa adennill refeniw teithwyr ar ei wasanaethau o faes awyr Caerdydd? (WAQ23712)

**Nick Bourne:** A all y Gweinidog gadarnhau a wnaed unrhyw drefniadau rhwng swyddogion ELWa a'r cwmni awyrennau Bmibaby o ran y posibilrwydd y gallai ELWa adennill refeniw teithwyr ar ei wasanaethau o faes awyr Caerdydd? (WAQ23713)

**Jane Davidson;** Nid yw'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath nac wedi gwneud unrhyw drefniadau o'r fath gyda Bmibaby.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Cwestiynau Ysgrifenedig Heb eu Hateb

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd mewn sefyllfa i ateb WAQ22910, WAQ22911, WAQ22916, WAQ22917, WAQ22918, WAQ22921, WAQ22922, a WAQ22923, a oedd i fod i gael eu hateb ar 3 Mawrth 2003? (WAQ23346)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Anfonwyd atebion i'r cwestiynau ysgrifenedig uchod atoch ar 5 Mawrth.

### Difa Hwyaid Cochion yng Nghymru

**Glyn Davies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddifa hwyaid cochion yng Nghymru? (WAQ23467)

**Sue Essex:** Cynhaliwyd astudiaeth ymchwil yn y DU yn ddiweddar i ystyried y ffordd orau o gyflawni rhwymedigaethau bioamrywiaeth rhyngwladol y DU o ran amddiffyn yr hwyaden benwen, y mae'r hwyaden goch yn croesi â hi. Nododd yr astudiaeth honno mai saethu yw'r dull rheoli mwyaf effeithiol y rhoddwyd prawf arno, ond yr wyf wedi cytuno â chydweithwyr yn Lloegr a'r Alban fod angen rhagor o ymchwil i dechnegau rheoli eraill.

Yr wyf yn cefnogi'r ymdrechion rhyngwladol i gadw'r hwyaden benwen fel rhywogaeth benodol a byddaf yn parhau i weithio gyda'm cydweithwyr yn y DU a phartneriaid Ewropeaidd i ddynodi a chymryd camau priodol.

### Amgangyfrif o Nifer yr Hwyaid Cochion

**Glyn Davies:** Beth yw'r amcangyfrif o nifer yr hwyaid cochion sydd yng Nghymru? (WAQ23468)

**Sue Essex:** Ar Ynys Môn y ceir y boblogaeth fwyaf o hwyaid cochion yng Nghymru. Amcangyfrifodd cyfrif gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar ym mis Chwefror fod y boblogaeth yno rhwng 180 a 220 o adar. Nid oes ffigurau ar gael i weddill Cymru ar hyn o bryd.

### Cynllun Datblygu Unedol Arfaethedig Rhondda Cynon Taf

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei hymwneud â'r adolygiad o bolisi H8 yng nghynllun datblygu unedol arfaethedig Rhondda Cynon Taf? (WAQ23491)

**Sue Essex:** Ar 16 Ionawr 2003, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf hysbysiad am ei fwriad i fabwysiadu cynllun lleol Tal Elái, i ddod i rym ar ôl 14 Chwefror 2003.

Mae fy swyddogion wedi cynghori bod y cynllun yn anfoddhaol o safbwynt ei bolisi ar dai i uwch reolwyr (polisi H8) ac, fel y Gweinidog dros yr Amgylchedd, ac yn unol â'u cyngor, gwneuthum gyfarwyddyd o dan y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol gan adran 43(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac a ddirprwywyd i mi, i newid y cynllun drwy ddileu'r polisi hwnnw. Yr oedd y Cynulliad wedi gwrthwynebu'r polisi hwn cyn hyn yn ystod y cam newidiadau ym mis Mehefin 2000.

Nid yw'r polisi yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol ac ni fyddai felly'n briodol caniatáu i gynllun lleol sy'n ei gynnwys gael ei fabwysiadu. Bu'n rhaid felly i mi, yn anfoddog, ymyrryd drwy roi cyfarwyddyd i newid y cynllun fel hyn, ond nid oes ffordd arall bosibl o weithredu. Ni ddylai'r cam hwn achosi dim ond oedi bach iawn cyn mabwysiadu'r cynllun.

### Poblogaeth yr Hwyaid Cochion yn Ynys Môn

**Glyn Davies:** Pa astudiaethau sydd wedi cael eu cynnal i boblogaeth yr hwyaid cochion yn Ynys Môn dros y blynyddoedd diwethaf? (WAQ23518)

**Sue Essex:** Cafodd Ynys Môn ei chynnwys yn yr arbrawf i reoli hwyaid cochion a gynhaliwyd gan y Labordy Gwyddoniaeth Canolog rhwng 1999 a Mai 2002 i ganfod a fyddai dichon cael gwared â phoblogaeth hwyaid cochion y DU (http://www.defra.gov.uk/wildlife-countryside/scientific/ruddy/ruddy1/index.htm). Y ddwy ardal arall oedd yn rhan o'r arbrawf oedd gorllewin canolbarth Lloegr a Fife yn yr Alban.

### Cyngor ar Boblogaeth yr Hwyaid Cochion yng Nghymru

**Glyn Davies:** Pa gyngor y mae wedi ei gael gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru am boblogaeth yr hwyaid cochion yng Nghymru? (WAQ23519)

**Sue Essex:** Yr oedd asiantaethau cadwraeth statudol y DU, gan gynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, wedi eu cynrychioli ar dasglu'r hwyaden benwen a adroddodd ar yr arbrawf i reoli'r hwyaid cochion y llynedd. Mae fy swyddogion yn parhau i gysylltu â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â phoblogaeth yr hwyaid cochion yng Nghymru, ac i geisio cyngor lle bo angen.

### Difa Hwyaid Cochion yng Nghymru

**Glyn Davies:** Faint o hwyaid cochion a fydd yn cael eu difa yng Nghymru, pwy fydd yn eu difa a beth fydd y gost? (WAQ23520)

**Glyn Davies:** Beth fydd y gost i'r Cynulliad Cenedlaethol o ddifa hwyaid cochion yng Nghymru? (WAQ23521)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ23467. Bydd rhagor o ymchwil yn cael ei wneud i dechnegau rheoli. Nid yw'n bosibl rhagweld y canlyniad ar hyn o bryd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Gwasanaethau Drug Abuse Resistance Education

**Geraint Davies:** Pa bryd fydd yr arolwg cyfredol o wasanaethau Drug Abuse Resistance Education yn dod i'w derfyn a phryd fydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi? (WAQ23506) [W]

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Yr wyf wedi gofyn i'r gwaith hwn gael ei gomisiynu. Bydd yn dechrau ddiwedd y gwanwyn. Bydd yn cynnwys gwerthuso gwasanaethau DARE ac ymyriadau eraill yn y maes addysg i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau.

### Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

**Glyn Davies:** O dan ba amgylchiadau y gall unigolyn preifat fod yn landlord cymdeithasol cofrestredig a bod yn gymwys am arian y Cynulliad i ddarparu tai ar rent? (WAQ23530)

**Edwina Hart:** Ni fyddai unigolyn preifat yn gallu bodloni naill ai'r meini prawf deddfwriaethol o dan Ran 1 o Ddeddf Dai 1995 na'r gofynion rheoleiddio perthnasol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rheoleiddiwr landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o dan unrhyw amgylchiadau.

### Y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru (Ceisiadau)

**Peter Black:** Faint o geisiadau y mae'r Llywodraeth a) wedi'u derbyn a b) wedi'u prosesu ar gyfer statws darparwr cymorth cofrestredig o dan y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru? (WAQ23589)

**Edwina Hart:** Y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn 99 o geisiadau am achrediad fel darparwr cymorth. Mae'r ceisiadau i gyd wedi cael eu prosesu, ond nid oes ymateb wedi dod i law eto i rai ceisiadau am wybodaeth ychwanegol.

### Y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru (Cyllid)

**Peter Black:** Faint o asiantaethau sydd bellach mewn sefyllfa i dderbyn arian ar gyfer statws darparwr cymorth cofrestredig o dan y rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghymru? (WAQ23590)

**Edwina Hart:** Hyd yma, mae 55 o asiantaethau wedi cael eu hachredu yn ddarparwyr cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys 20 o awdurdodau lleol, 29 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac 16 o gyrff gwirfoddol.

### Gwaith Carthffosiaeth Newydd yng Nghaergybi

**Peter Rogers:** A oes arian ychwanegol ar gael oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol i Gyngor Sir Ynys Môn, i dalu am gost unrhyw apêl a gyflwynir yn ei erbyn ynghylch ei benderfyniad i wrthod gwaith carthffosiaeth newydd yng Nghaergybi? (WAQ23728)

**Edwina Hart:** Nac oes.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ystadegau Ymddiriedolaethau GIG

**David Davies:** Beth yw'r ffigwr ar gyfer (a) llawdriniaethau a ohiriwyd (b) pobl a ryddhawyd o'r ysbyty yn hwyr (c) pobl a anfonwyd yn ôl i'r ysbyty ar frys (1) ym mhob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru (2) yng Nghymru gyfan fesul chwarter ers 1999, hyd at a chan gynnwys y chwarter olaf y mae data ar gael ar ei gyfer? (WAQ23157)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Atodaf ddau dabl.

Mae tabl (a) yn ymdrin â llawdriniaethau a ganslwyd rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2002. Nid oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog cyn y dyddiad hwn.

Mae tabl (b) yn ymdrin ag oedi cyn trosglwyddo gofal rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2002. Câi gwybodaeth ei chasglu cyn y dyddiadau hyn ond, oherwydd gwahaniaethau casglu/diffinio, ni fyddent yn rhoi cymhariaeth gywir â'r data mwy cyfoes.

Cafodd yr unig wybodaeth a gasglwyd gan y GIG yng Nghymru am aildderbyn cleifion ar frys ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 1999. Mae copïau o'r cyhoeddiad, 'Clinical Indicators for the NHS', mis Rhagfyr 1999, i'w cael yn y Llyfrgell.

**Tabl (a): Nifer y llawdriniaethau a ganslwyd (cleifion mewnol ac achosion dydd)**
Diffiniad: Mae'n cynnwys pob llawdriniaeth a ganslwyd (gan gynnwys llawdriniaethau brys) gan yr ysbyty am ba reswm bynnag, pa un a oedd y claf wedi cael ei dderbyn i'r ysbyty ai peidio, oni bai y barnwyd nad oedd y claf mewn cyflwr addas yn glinigol i gael llawdriniaeth, neu fod penderfyniad clinigol wedi cael ei wneud nad oes angen y llawdriniaeth ar y claf mwyach.

Nid yw ond yn cynnwys y llawdriniaethau/derbyniadau a ganslwyd ar y diwrnod.

Nid yw'n cynnwys llawdriniaethau a ganslwyd gan y claf na chleifion na ddaethant i'r ysbyty.

| **Mis Ionawr i fis Rhagfyr 2002** | Chwarter 1 Ion – Maw | Chwarter 2 Ebr – Meh | Chwarter 3 Gor – Medi | Chwarter 4 Hyd – Rhag | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 101 | 68 | 61 | 64 | **294** |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 304 | 391 | 575 | 641 | **1,911** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Iechyd** | **405** | **459** | **636** | **705** | **2,205** |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 710 | 302 | 146 | 208 | **1,366** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 32 | 43 | 15 | 31 | **121** |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 143 | 0 | 3 | 28 | **174** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Iechyd** | **885** | **345** | **164** | **267** | **1,661** |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 177 | 72 | 73 | 103 | **425** |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 41 | 16 | 19 | 30 | **106** |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 152 | 101 | 191 | 132 | **576** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | 1 | 0 | 0 | 0 | **1** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Iechyd** | **371** | **189** | **283** | **265** | **1,108** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 224 | 181 | 240 | 180 | **825** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Iechyd** | **224** | **181** | **240** | **180** | **825** |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 23 | 12 | 45 | 12 | **92** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 145 | 144 | 84 | 99 | **472** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 38 | 32 | 41 | 50 | **161** |
| **Cyfanswm yr Awdurdod Iechyd** | **206** | **188** | **170** | **161** | **725** |
| **CYFANSWM CHWARTEROL CYMRU GYFAN** | **2,091** | **1,362** | **1,493** | **1,578** | **6,524** |

**Tabl (b): Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal, mis Ebrill i fis Rhagfyr 2002**

| | **Ebr** | **Mai** | **Meh** | **Gor** | **Awst** | **Medi** | **Hyd** | **Tach** | **Rhag** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Iechyd Bro Taf** | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro | 136 | 175 | 187 | 201 | 187 | 174 | 196 | 201 | 198 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 40 | 39 | 41 | 43 | 37 | 35 | 39 | 38 | 28 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a'r Rhondda | 63 | 52 | 44 | 49 | 56 | 61 | 61 | 68 | 59 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 1 | 4 | 5 | 4 | 5 | 3 | 6 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **240** | **270** | **277** | **297** | **285** | **273** | **302** | **307** | **286** |
| **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys** | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 58 | 58 | 84 | 72 | 89 | 81 | 67 | 87 | 73 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a | 20 | 20 | 13 | 12 | 13 | 16 | 14 | 24 | 24 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chanolbarth Cymru | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 51 | 45 | 51 | 59 | 61 | 57 | 54 | 50 | 44 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys | 30 | 28 | 35 | 38 | 40 | 30 | 24 | 29 | 34 |
| **Cyfanswm** | **159** | **151** | **183** | **181** | **203** | **184** | **159** | **190** | **175** |
| **Awdurdod Iechyd Gwent** | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 201 | 223 | 251 | 248 | 239 | 262 | 258 | 260 | 266 |
| **Cyfanswm** | **201** | **223** | **251** | **248** | **239** | **262** | **258** | **260** | **266** |
| **Awdurdod Iechyd Morgannwg** | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 55 | 49 | 69 | 73 | 55 | 62 | 52 | 59 | 43 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 71 | 106 | 122 | 113 | 119 | 126 | 114 | 101 | 81 |
| **Cyfanswm** | **126** | **155** | **191** | **186** | **174** | **188** | **166** | **160** | **124** |
| **Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru** | | | | | | | | | |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 38 | 44 | 38 | 32 | 38 | 51 | 39 | 33 | 33 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru | 69 | 118 | 82 | 89 | 102 | 94 | 97 | 95 | 82 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru | 27 | 37 | 35 | 45 | 39 | 30 | 36 | 22 | 21 |
| **Cyfanswm** | **134** | **199** | **155** | **166** | **179** | **175** | **172** | **150** | **136** |
| **Cyfanswm Cymru Gyfan** | **860** | **998** | **1,057** | **1,078** | **1,080** | **1,082** | **1,057** | **1,067** | **987** |

Sylwch mai dangos nifer y trosglwyddiadau gofal a oedd wedi eu gohirio adeg y cyfrifiad a wna’r ffigurau uchod, h.y. y trydydd dydd Mercher ym mhob mis.

## Imiwneiddio yn Erbyn y Frech Wen

**Dafydd Wigley:** Faint o bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu himiwneiddio yn erbyn y frech wen, a sut byddai’r Gweinidog yn asesu faint o’r bobl hyn sy’n parhau i fod wedi’u himiwneiddio’n effeithiol? (WAQ23278)

**Jane Hutt:** Dechreuwyd imiwneiddio yn erbyn y frech wen fel mater o drefn yn 1938, a rhoddwyd y gorau i hynny yn 1971. Dim ond rhan o’r boblogaeth, amcangyfrifir tua 40 y cant, a fydd wedi ei himiwneiddio.

Gallai cysylltiad â’r brechiad yn y gorffennol roi rhywfaint o amddiffyniad. Fodd bynnag, o ystyried y cyfnod sydd wedi mynd heibio, ein cyngor meddygol yw y byddai cysylltiad â’r frech wen yn y dyfodol yn creu rhywfaint o salwch ymysg y sawl sydd wedi cael eu himiwneiddio. Yn ôl y cyngof proffesiynol, dylem dybio nad oes gan y sawl a frechwyd yn y gorffennol imiwneiddiad llwyr wrth ddatblygu ein cynlluniau wrth gefn.

## Y Sector Cartrefi Gofal Cyhoeddus a’r Sector Cartrefi Gofal Preifat

**Peter Rogers:** A oes unrhyw gyfarwyddiadau statudol sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn ymgynghori â chynrychiolwyr y sector gofal annibynnol? (WAQ23295)

**Peter Rogers:** A yw partneriaeth ac/neu ymgynghori rhwng y sector cartrefi gofal cyhoeddus a’r sector cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn yn ofynnol yn statudol? (WAQ23306)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd canllawiau statudol i’r awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2000 o dan y teitl ‘Guidance on Planning for Social Services’. Dywed y rhain fod angen nodi ar ba sail y comisiynir gwasanaethau, o ffynonellau mewnol ac o’r sector annibynnol, a bod yn rhaid i farn darparwyr o’r fath gael ei hystyried fel rhan o’r broses gynllunio.

Bydd canllawiau statudol drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru, ‘Promoting Partnership in Care—Commissioning Social and Health Care Services’, yn cael eu cyhoeddi’n fuan yn eu ffurf derfynol. Maent

yn diffinio egwyddorion pwysig i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau gofal, gan gynnwys yr angen i gomisiynwyr fabwysiadu dull partneriaeth sydd, ymysg pethau eraill, yn help i sicrhau dichonoldeb darparwyr ynghyd â marchnad i ddarparwyr newydd fynd iddi.

### Sector Cartrefi Gofal

**Peter Rogers:** Pa ddeddfwriaeth sy'n bodoli i ddarparu a diogelu gofal cystadleuol o fewn y diwydiant cartrefi gofal? (WAQ23296)

**Peter Rogers:** A wnaethpwyd unrhyw ymholiadau i'r modd y cynhelir ac y sicrheir cystadleuaeth deg rhwng cartrefi gofal preifat a chartrefi gofal cyhoeddus ar Ynys Môn? (WAQ23297)

**Peter Rogers:** O fewn pa ffiniau y caiff arferion anghystadleuol eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyrff hynny sydd â rôl statudol o fonitro a gweithredu cystadleuaeth economaidd deg o fewn y diwydiant cartrefi gofal ar Ynys Môn? (WAQ23298)

**Peter Rogers:** Pa weithdrefn a ddefnyddir pan fo awdurdod lleol yn ei gael yn euog o ddefnyddio arferion marchnata anghystadleuol mewn perthynas â darparu ffioedd o fewn y sector cartrefi gofal? (WAQ23299)

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y ddarpariaeth o ofal iechyd cystadleuol? (WAQ23307)

**Jane Hutt:** Y Swyddfa Masnachu Teg sy'n gyfrifol am hyrwyddo a gwarchod buddiannau defnyddwyr ledled y DU, tra'n sicrhau bod cyrff sy'n cael eu rhwymo gan ddeddfwriaeth cystadleuaeth yn gweithredu mewn modd teg a chystadleuol.

Yr oedd a wnelo dyfarniad tribiwnlys apêl y comisiwn cystadleuaeth y llynedd yn achos cyfarwyddwr cyffredinol Masnachu Teg a Bettercare Group Ltd a'r cwestiwn pa un y gellir cymhwyso'r ddeddfwriaeth cystadleuaeth i gyrff statudol mewn achos penodol. Un goblygiad yw y gallai gwaith awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau gofal fod yn ddarostyngedig o bosibl i Ddeddf Cystadleuaeth 1998. Nid oedd y dyfarniad yn dweud a oedd Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd a Gorllewin Belffast neu, yn ein cyd-destun ni, awdurdodau lleol eraill, yn gweithredu'n groes i'r Ddeddf ar hyn o bryd. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn ailystyried mater ymddygiad gwrthgystadleuol honedig yr ymddiriedolaeth.

Deallaf fod Llys Cyfiawnder Ewrop yn ystyried achos cyffelyb ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn help i ddangos ymhellach pa un a yw'r Ddeddf yn berthnasol i swyddogaethau comisiynu cyrff cyhoeddus.

Dylai cynghorau, wrth gwrs, roi'r egwyddorion Gwerth Gorau ar waith wrth ddarparu neu brynu gwasanaethau gofal a byddwn yn disgwyl iddynt beidio â gweithredu mewn ffyrdd sy'n mynd yn groes i ysbryd Deddf Cystadleuaeth 1998.

### Sector Gofal Preifat ar Ynys Môn

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog wneud datganiad am gyflwr y sector gofal preifat ar Ynys Môn? (WAQ23300)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae gan Ynys Môn 58 o gartref gofal gyda chyfanswm o 726 o welyau. O'r rhain, mae 52 yn gartrefi gofal annibynnol (558 o welyau) ac mae chwech yn cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (168 o welyau).

Mae sector cartrefi gofal sefydlog a dichonadwy, boed hynny yn y sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, yn rhan hanfodol o'r holl gontinwwm gofal ac yr wyf yn cydnabod y rôl werthfawr sydd gan y sector gofal preifat yn darparu gwasanaethau gofal.

Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu neu gomisiynu gwasanaethau gofal. Mae ganddynt ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau gofal priodol yn cael eu darparu i'r rhai yr asesir bod angen gofal arnynt. Bydd hyn yn golygu amrywiaeth o ddarpariaeth gan gynnwys gofal preswyl, gofal cartref a gofal a ddarparir ynghlwm wrth lety.

Ar y lefel strategol, yr ydym wedi cymryd nifer o gamau i helpu i roi rhywfaint o hyder a sefydlogrwydd i ddarparwyr gofal preswyl, gan gynnwys gwaith grŵp strategaeth gofal Cymru, canllawiau comisiynu newydd, rhoi sylw i faterion y gweithlu, cefnogaeth i ymdrin ar sail gwybodaeth â chostau darparwyr wrth negodi ffioedd, adolygu'r safonau amgylcheddol a gweinyddol sy'n effeithio ar gartrefi bach, canllawiau gweithredol newydd i arolygwyr safonau gofal a chyllid ychwanegol.

### Cartrefi Gofal ar Ynys Môn

**Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog yn ystyried bod cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn yn rhan hollbwysig o'r sector gofal annibynnol ar Ynys Môn? (WAQ23301)

**Peter Rogers:** Ai polisi'r Cynulliad yw mai economi gymysg a chystadleuol sy'n fwyaf buddiol i sicrhau dewis i ddarpar 'gleifion' cartrefi gofal Ynys Môn a diogelu dewis yr unigolyn? (WAQ23303)

**Peter Rogers:** Ai polisi'r Cynulliad yw mai partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yw'r ffordd orau o warchod buddiannau gofalwyr a defnyddwyr y 'diwydiant' cartrefi gofal ar Ynys Môn? (WAQ23304)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 4 Mawrth 2003 (WAQ23035).

### Sector Cartrefi Gofal (Ynys Môn)

**Peter Rogers:** Faint o bwys a ddylai Cyngor Sir Ynys Môn ei roi ar ddewis yr unigolyn a'r amrywiaeth o opsiynau mewn perthynas â'r sector cartrefi gofal? (WAQ23302)

**Jane Hutt:** Y mae Cyfarwyddiadau Deddf Cymorth Gwladol 1948 (Dewis Llety) 1993 yn ymdrin â hawl unigolion i ddewis ymhle y maent yn derbyn gofal preswyl sydd wedi ei drefnu iddynt gan awdurdodau lleol.

Mae gan unigolyn yr hawl i ddewis ym mha gartref y mae'n byw ar yr amod:

- ei fod yn addas i'w anghenion, fel y'u haseswyd;
- na fyddai'r gost yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol dalu mwy nag a fyddai'n disgwyl ei dalu fel arfer i rywun sydd â'r un anghenion wedi'u hasesu â'r unigolyn;
- bod gwely ar gael; a
- bod y swyddog â gofal yn barod i ddarparu'r llety yn ddarostyngedig i delerau ac amodau arferol yr awdurdod lleol.

### Diwydiant Cartrefi Gofal Cyhoeddus a Phreifat (Ynys Môn)

**Peter Rogers:** Sut y mae'r bartneriaeth rhwng y diwydiant cartrefi gofal cyhoeddus a phreifat ar Ynys Môn yn cael ei hyrwyddo a'i diogelu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ23305)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi sefydlu grŵp strategaeth gofal Cymru i ymdrin â, a chynghori ar, y materion strategol allweddol sy'n effeithio ar sbectrwm y gwasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn helpu i ddod â mwy o sefydlogrwydd a hyder i ddarparwyr y sector gofal. Mae gan y grŵp rôl bwysig i'w chwarae yn dod â chynrychiolwyr darparwyr gofal preswyl a gofal cartref, awdurdodau lleol, y GIG, y sector gwirfoddol, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill ynghyd er mwyn rhoi ffocws strategol i faterion sy'n wynebu'r sector.

Yr wyf hefyd yn ddiweddar wedi ymgynghori ynglŷn â chanllawiau drafft ar gomisiynu gwasanaethau gofal sydd i gael eu cyflwyno o fis Ebrill 2003. Mae'r rhain yn hyrwyddo dull o gomisiynu gofal drwy bartneriaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr fod yn sensitif i'r effaith a gaiff arferion comisiynu ar ddarparwyr.

**Cymhorthion Clywed Digidol**

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amser y bydd cleifion yng Nghymru yn ei aros rhwng gofyn am gymhorthion clywed digidol a'u derbyn? (WAQ23454)

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n achosi rhestrau aros y cleifion sy'n disgwyl am gymhorthion clywed digidol? (WAQ23456)

**Jane Hutt:** Gwelwyd cynnydd yn y rhestrau aros mewn adrannau clywedeg yn sgîl y rhaglen foderneiddio yn 2001-02. Ynghyd â llawer o ddefnyddwyr newydd posibl a fyddai am gael cymhorthion clywed, mae'r rhaglen wedi denu cleifion sydd â chymhorthion clywed analog yn barod, sydd wedi cael eu cyfeirio gan eu meddygon teulu at yr ymddiriedolaethau GIG mewn ymateb i'w ceisiadau am ailasesiad. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y galw am y gwasanaethau drwyddynt draw. Fodd bynnag, rhwng mis Awst 2002 ac 1 Chwefror 2003 cafodd 4,440 o bobl yng Nghymru gymhorthion clywed digidol.

**Cymhorthion Clywed Digidol (Rhestrau Aros)**

**Peter Rogers:** Pa addewidion allwch chi eu rhoi i gleifion sydd wedi bod yn aros am gymhorthion clywed digidol ers mis Awst 2002? (WAQ23455)

**Jane Hutt:** Y mae £650,000 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i fyrddau iechyd lleol, ar ben yr £1.8 miliwn a gynlluniwyd, i dalu am ddarparu cymhorthion clywed digidol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae prinder awdiolegwyr drwy'r wlad ac yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno cynllun carlam, fel bod modd i raddedigion ddod yn awdiolegwyr clinigol sydd wedi cael eu hyfforddi o fewn amserlenni llawer byrrach.

**Dosbarthiad Cyhoeddus o Dechnoleg Cymorth Clywed Digidol yng Nghymru**

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddosbarthiad cyhoeddus technoleg cymorth clywed digidol yng Nghymru, a sut y mae hyn yn cymharu â Lloegr? (WAQ23457)

**Jane Hutt:** Y mae llwyddiant cwblhau ein rhaglen foderneiddio, y buddsoddwyd £2.25 miliwn ynddi, yn llwyddiannus wedi golygu bod pob ymddiriedolaeth yng Nghymru yn gallu cynnig gwasanaeth i osod cymhorthion clywed digidol o fis Awst y llynedd. Mae rhaglen foderneiddio gyfatebol Lloegr yn cael ei chyflwyno fesul tair ton. Ni fydd Lloegr yn y sefyllfa a gyrhaeddwyd yng Nghymru fist Awst diwethaf o ran moderneiddio'r gwasanaethau clywedeg a darparu cymhorthion clywed digidol drwy'r wlad tan fis Ebrill 2005.

**Cyn-Aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd am gael Cymhorthion Clywed Digidol**

**Peter Rogers:** A oes unrhyw ddarpariaethau arbennig ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog sydd am gael cymhorthion clywed digidol, ond sydd ar hyn o bryd yn aros amdanynt? (WAQ23458)

**Jane Hutt:** Y mae pensiynwyr rhyfel, sy'n derbyn eu pensiwn yn benodol oherwydd niwed i'w clyw a achoswyd wrth, neu o ganlyniad i, ymladd mewn rhyfel, yn cael blaenoriaeth. Mae hyn yn hawl statudol iddynt.

## Cymorth Clywed Digidol (Gogledd Cymru)

**Peter Rogers:** Faint o bobl, fesul Sir, yng ngogledd Cymru sy’n aros am gymorth clywed digidol? (WAQ23459)

**Peter Rogers:** Ai ar sail rhanbarth y cedwir hyd rhestrau aros am gymhorthion clywed digidol yng Nghymru? (WAQ23460)

**Peter Rogers:** Pa mor hir yw rhestrau aros presennol y GIG am gymhorthion clywed digidol? (WAQ23462)

**Jane Hutt:** Yr ymddiriedolaethau unigol sy’n cadw’r wybodaeth am y rhestrau aros am gymhorthion clywed digidol; nid yw’n cael ei chasglu ar sail sirol, rhanbarthol na Chymru gyfan.

## Blaenoriaethau Dyrannu Cymhorthion Clywed Digidol

**Peter Rogers:** Ar ba sail y caiff blaenoriaethau dyrannu cymhorthion clywed digidol eu pennu? (WAQ23461)

**Jane Hutt:** Y mae’r ymddiriedolaethau yn rhoi blaenoriaeth i gleifion sydd â chyflyrau sy’n peryglu eu bywyd megis canser. Mae pensiynwyr rhyfel hefyd yn cael blaenoriaeth.

## Mynediad yn Rhad ac am Ddim at Gofnodion Meddygol

**Glyn Davies:** Pa drefniadau sy’n bodoli yng Nghymru i gleifion gael mynediad yn rhad ac am ddim at eu cofnodion meddygol ac a oes cynlluniau i newid y trefniadau hyn? (WAQ23466)

**Jane Hutt:** Nid yw’r mater hwn wedi cael ei ddatganoli. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gall gyrff y GIG godi tâl hyd at uchafswm o £10 am gael gweld cofnodion meddygol electronig a hyd at uchafswm o £50 am gael gweld cofnodion llaw (neu gyfuniad o’r naill a’r llall). Mae’r sefyllfa hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y grŵp adolygu cofnodion iechyd a diogelu gwybodaeth, o dan arweiniad yr Adran Iechyd. Mae swyddog o’r Cynulliad yn aelod o’r grŵp hwn. Yn ogystal, mae Adran yr Arglwydd Ganghellor yn ddiweddar wedi gorffen ymgynghori ynglŷn â’r trefniadau mynediad gwrthrych data o dan Ddeddf Diogelu Data 1998.

## Parafeddygon

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu rôl parafeddygon? (WAQ23470)

**Jane Hutt:** Y mae sawl gwasanaeth ambiwlans yn y DU, gan gynnwys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn ceisio datblygu rôl parafeddygon i fod yn ymarferwyr gofal brys. Mae’r rhain yn barafeddygon sydd wedi cael eu hyfforddi i lefel uwch gan eu galluogi i roi triniaeth ar sail eu penderfyniadau eu hunain yn hytrach na phrotocolau gofal caeth.

Yn y dyfodol, efallai y caiff yr ymarferwyr hyn eu datblygu o gefndir nyrsio generig yn hytrach na dim ond o blith parafeddygon a’r weledigaeth yw y byddent yn gallu gweithio ym maes gofal argyfwng, damweiniau ac achosion brys a gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaeth blaenoriaethu ac adfywio lefel uchel.

## Lleihau Rhestrau Aros

**Alun Cairns:** I ba raddau y mae’r Gweinidog wedi llwyddo i leihau rhestrau aros? (WAQ23480)

**Jane Hutt:** Buddsoddwyd yn sylweddol er mwyn lleihau’r rhestrau aros a moderneiddio’r ffordd o’u rheoli hwy ac o gyflenwi gwasanaethau. O ganlyniad, mae nifer y cleifion sy’n disgwyl dros 18 mis am

driniaeth orthopaedig wedi gostwng 2,200 er mis Mehefin 2001. Mae'r nifer sy'n disgwyl mwy na phedwar mis am lawdriniaeth gataract wedi gostwng 30 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf. Ym maes llawdriniaeth y galon, mae'r gwasanaeth wedi cyrraedd y targed pwysig na ddylai'r un claf ddisgwyl mwy na 12 mis, ac mae'r cyfanswm sy'n disgwyl erbyn hyn ar ei lefel isaf er mis Chwefror 1999. Dylai'r gwasanaeth allu sicrhau, erbyn diwedd Mawrth 2003, na fydd yr un claf yn gorfod disgwyl mwy na 6 mis am ymchwiliad angiograffeg.

### Amcanion y Llwyddwyd i'w Cyflawni

**Alun Cairns:** Pa rai o bolisïau'r Gweinidog, dros y pedair mlynedd diwethaf, sydd wedi llwyddo i gyflawni eu hamcanion? (WAQ23481)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi symud ymlaen yn sylweddol o ran cyflawni'r amcanion eang eu cwmpas a nodwyd yn 'Gwella Iechyd yng Nghymru'. Mae ein polisïau wedi llwyddo i gynyddu nifer y meddygon, y nyrsys a'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n ymarfer ac yn cael eu hyfforddi, maent wedi arwain at welliannau iechyd, wedi cwtogi amseroedd aros yn y meysydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt, wedi gwella gwasanaethau allweddol ac wedi galluogi'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru i ymateb yn well i anghenion cleifion.

Ymysg ein llwyddiannau ym maes gofal cymdeithasol mae sicrhau gweithio agosach rhwng iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill, sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru a Chyngor Gofal Cymru a chreu Comisiynydd Plant i Gymru.

### Adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynigion yn adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg, 'The Control of Entry Regulations and Retail Pharmacy Services in the UK'? (WAQ23482)

**Jane Hutt:** Ers cyhoeddi'r adroddiad, yr wyf wedi derbyn llawer iawn o ohebiaeth oddi wrth Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, cyrff cynrychiadol a fferyllwyr unigol. Er bod amrywiaeth barn, mae llawer o'r gohebyddion hyn yn pwysleisio'r angen imi fod yn wyliadwrus o'r effaith y gallai argymhellion yr adroddiad ei chael ar fferyllfeydd bach, yn arbennig yn rhannau gwledig Cymru. Byddaf yn pwyso a mesur y farn hon a safbwyntiau i'r gwrthwyneb yn ofalus iawn cyn penderfynu ar fy ymateb.

### Gofal Llid y Cymalau

**Owen John Thomas:** Beth sydd wedi'i wneud ers cyhoeddiad y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2002 i gyflwyno strategaeth genedlaethol gyntaf yr UE mewn perthynas â gofal llid y cymalau? (WAQ23483)

**Jane Hutt:** Y mae llid y camalau yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith ar y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Tra'n bod yn cydnabod bod llid y cymalau yn effeithio ar ystod o grŵpiau oedran, mae hefyd yn effeithio ar gyfran fawr o bobl hŷn. Bydd y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn help i bennu safonau gofal a chymorth ynghyd â fframwaith strategol. O fewn yr wythnosau nesaf bydd grŵp gweithredu yn cael ei sefydlu i dywys hyn yn ei flaen.

Bydd y strategaeth ar lid y cymalau y bwriadwn ei datblygu law yn llaw â hyn, gan gyfeirio'n fwy penodol ac yn fwy manwl at bobl o bob oedran yng Nghymru, yn helpu i bennu safonau gofal a sefydlu sylfaen strwythuredig i'w defnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff statudol eraill i ddatblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Gwelyau a Flociwyd (Ardal Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro)

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar nifer y gwelyau sy'n cael eu blocio yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro? (WAQ23484)

**Jane Hutt:** Ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ar bwynt cyfrifiad Ionawr 2003 (y wybodaeth gyflawn ddiweddaraf sydd ar gael), yr oedd 211 o achosion o oedi. Mae hyn yn bwrw cyfrif o nid yn unig y cleifion na ellid eu rhyddhau o ofal y GIG, ond hefyd y cleifion hynny sy'n aros i gael eu trosglwyddo i feysydd eraill o fewn y GIG.

O'r 211 o achosion o oedi yr adroddwyd amdanynt, yr oedd 135 ohonynt yn oedi yn y gallu i ryddhau cleifion o sefydliadau'r GIG. Cofnodwyd y rhesymau am yr oedi yn y cyfrifiad ac mae'n cynnwys wyth prif gategori. Dyma'r dadansoddiad ar gyfer Ionawr 2003:

| | |
|---|---:|
| Asesiadau gofal yn y gymuned | 6 |
| Trefniadau gofal yn y gymuned | 37 |
| Asesiadau gofal iechyd | 25 |
| Trefniadau gofal iechyd | 62 |
| Ystyriaethau cyfreithiol/ariannol | 1 |
| Anghydfodau | 9 |
| Arall* | 60 |
| Heb gytuno ar y prif reswm | 1 |

* Yn cynnwys perthnasau/gofalwyr yn dewis cartref gofal a bod dim lle yn y cartref gofal a ddewiswyd ganddynt.

Mae partneriaid lleol yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro yn dal i weithio'n galed i ostwng nifer yr achosion o oedi. Mae'r arian grant ychwanegol a ddarparwyd i lywodraeth leol yn 2002-03, i'w helpu i weithio gyda phartneriaid iechyd lleol i leihau'r oedi a chefnogi'r sector cartrefi gofal, yn cael ei ddefnyddio i gynyddu'r gofal cartref, y gofal ymgryfhau a'r gwasanaethau ymateb brys, ac i wella gwasanaethau ac asesiadau gwaith cymdeithasol.

**Ysbyty Glan Clwyd**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog roi'r diweddaraf ar yr hyn a wnaed i ddatblygu'r cynllun diogelwch rhag tân ac i gael gwared ag asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd? (WAQ23485)

**Jane Hutt:** Y mae Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych yn datblygu'r achos busnes llawn ar gyfer y cynllun hwn, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gobeithio y bydd yn barod erbyn yr hydref. Bydd y cynllun yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gwblhau oherwydd ei fod yn golygu tynnu ac adnewyddu bron yr holl barwydydd, y waliau a'r nenfydau mewnol er mwyn gallu cael gwared â'r asbestos yn effeithiol a sicrhau y cydymffurfir â'r mesurau diogelwch tân, tra'n parhau â'r gofal arferol i'r cleifion ac â gwasanaethau arferol yr ysbyty.

Bydd yr ymddiriedolaeth yn ceisio amharu cyn lleied â phosib ar y gwasanaethau, ond tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo, bydd yn aildrefnu lleoliadau ei hadrannau clinigol ac anghlinigol yn gyfluniad mwy effeithlon. Mae'r ymddiriedolaeth ar fin cwblhau strategaeth gwasanaethau ac ystadau integredig i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl ofynion clinigol ac anghlinigol o fewn y cynllun 'tân ac asbestos'.

Bydd yr achos busnes llawn yn ddogfen gymhleth, yn canolbwyntio ar ragofalon tân a chael gwared ag asbestos yn ogystal ag ar y strategaeth integredig. Mae'n cymryd amser i'w datblygu'n briodol fel y gall yr ymddiriedolaeth asesu'n fanwl gywir y rhestr waith dros tua naw mlynedd.

**Timau Gofal Iechyd Sylfaenol**

**Helen Mary Jones:** Pa fesurau sydd yn eu lle i ganiatáu i fferyllwyr gyfrannu at waith timau gofal iechyd sylfaenol? (WAQ23486)

**Jane Hutt:** Fferyllwyr yw prif arbenigwyr y GIG ar feddyginiaethau a sut i'w defnyddio, mewn ysbytai ac yn y gymuned, fel ei gilydd. Drwy weithio'n agos gyda'u cydweithwyr mewn meysydd proffesiynol eraill, chwaraeant rôl ganolog mewn pump o brif weithgareddau:

- Hyrwyddo a chefnogi ffyrdd iach o fyw;
- Rheoli anhwylderau cyffredin;
- Rheoli meddyginiaethau ar bresgripsiwn;
- Rheoli cyflyrau hirdymor; a
- Chynghori a chefnogi pobl broffesiynol eraill y maes gofal iechyd.

I'r cyhoedd, mae fferyllwyr cymunedol yn cynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth ymarferol heb fod angen apwyntiad nac unrhyw drefniant ffurfiol arall. Mae amcangyfrif o 350,000 o bobl yn cerdded i fferyllfeydd cymunedol bob dydd yng Nghymru am amrywiol wasanaethau, a chynigiant gyfleoedd enfawr i wella iechyd pobl Cymru. Yr ydym yn dra ymwybodol o'r angen i integreiddio'r rôl hon i'n holl waith cynllunio ar gyfer gwell gwasanaethau.

### Amseroedd Aros ar Gyfartaledd (Adran Damweiniau ac Achosion Brys)

**David Lloyd:** Ar gyfartaledd, am ba mor hir y bydd yn rhaid i glaf yng Nghymru aros mewn adran damweiniau ac achosion brys cyn cael mynd i adran arall? (WAQ23487)

**Jane Hutt:** Ni ddelir y wybodaeth hon yn ganolog. Serch hynny, canfu adroddiad Hydref 2001 y Comisiwn Archwilio, i wasanaethau damweiniau ac achosion brys, fod bron 85 y cant o gleifion mewn adran damweiniau ac achosion brys yng Nghymru yn cael gweld meddyg o fewn awr. Yr oedd y canlyniad hwn yn well na chanlyniad unrhyw rai o ranbarthau Lloegr.

### Datganiad Munich

**Geraint Davies:** Pa gamau penodol y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i weithredu datganiad Munich ar nyrsio, bydwreigiaeth a gwaith ymwelwyr iechyd (2000)? (WAQ23488)

**Geraint Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i weithredu datganiad Munich ar nyrsio, bydwreigiaeth a gwaith ymwelwyr iechyd? (WAQ23505)

**Jane Hutt:** Nod datganiad Munich yw sicrhau bod gwir werth a photensial nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd yn cael eu datblygu a'u cydnabod wrth gyflwyno gofal iechyd. Yng Nghymru, sefydlwyd nifer o gynlluniau i gefnogi ymarfer a datblygiad nyrsys.

Mae Proffesiynau Iechyd Cymru yn gorff newydd yng Nghymru sy'n cefnogi addysg cyn-cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, drwy achredu cyrsiau addysg a hyfforddiant ac amgylcheddau dysgu clinigol. Bydd yn darparu gwasanaeth tebyg i broffesiynau gofal iechyd eraill ac, felly, bydd mewn sefyllfa dda i annog a chefnogi cyfleoedd dysgu rhyng-broffesiynol.

Mae'r Cynulliad yn annog yr holl ddarparwyr addysg gofal iechyd cyn-cofrestru i gynnwys cyfleoedd dysgu rhyng-broffesiynol yn eu rhaglenni. Ar hyn o bryd, ariennir astudiaethau peilot i ddatblygu cyfleoedd o'r fath mewn sefydliadau academaidd ac amgylcheddau clinigol.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi darparu nawdd ar gyfer Canolfan Iechyd Cymru er mwyn iddi gynnig ysgoloriaeth i ymarferwyr an-feddygol er mwyn dilyn hyfforddiant iechyd cyhoeddus. Mae ysgoloriaethau o'r fath yn agored i nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd. Eir ar drywydd cynlluniau i wella a datblygu rolau nyrsio yng Nghymru, er enghraifft, drwy benodi nyrsys ymgynghorol a chyflwyno'r hawl i nyrsys roi presgripsiynau.

### Ymateb i Argyfwng Mawr

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am barodrwydd gwasanaethau ein hysbytai i ymateb i argyfwng mawr? (WAQ23489)

**Jane Hutt:** Y mae'r holl ysbytai yng Nghymru a ddynodwyd i gymryd cleifion ar ôl digwyddiad mawr yn meddu ar gynlluniau digwyddiadau mawr ac maent yn barod i ymateb i ddigwyddiad o'r fath, beth bynnag y bo'i achos.

Ers Medi 11, mae Adran GIG Cymru wedi gweithio'n agos gydag ysbytai aciwt, yn ogystal â chyda rhannau eraill o'r GIG, i ymchwilio i allu a gwytnwch y maes iechyd i ymateb i'r bygythiadau newydd y mae terfysgaeth yn eu peri. Cymerwyd nifer o fesurau i wella a dylanwadu ar ein trefniadau wrth gefn ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys darparu arweiniad i gynorthwyo a dylanwadu ar gynlluniau argyfwng y GIG, sefydlu amrywiol wrthgyffuriau, brechiadau a chyfarpar i gynorthwyo'r GIG i ymateb i ddigwyddiad cemegol, biolegol neu niwclear a thrwy wella'r cyfarpar gwarchod personol sydd ar gael i staff y GIG wrth ddelio gyda digwyddiadau o'r fath.

### Rheoleiddio Contractau Fferyllol

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad diweddar y Swyddfa Masnachu Teg ar reoleiddio contractau fferyllol? (WAQ23490)

**Jane Hutt:** Ers i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, yr wyf wedi cael nifer fawr o ohebiaeth oddi wrth ACau, ASau, sefydliadau cynrychioliadol a fferyllwyr unigol. Tra bod y safbwyntiau yn amrywiol, mae llawer o'r gohebiaethau hyn yn pwysleisio'r angen imi fod yn wyliadwrus o'r effaith y gallai argymhellion yr adroddiad ei chael ar fferyllfeydd bychain, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig o Gymru. Byddaf yn pwyso a mesur y safbwyntiau hyn a'r safbwyntiau croes yn ofalus iawn cyn gwneud penderfyniad ynghylch fy ymateb.

### Mynediad at Benthyciadau i Fyfyrwyr Nyrsio cyn iddynt Gofrestru

**Geraint Davies:** Pa ystyriaethau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi i ddarparu benthyciadau i fyfyrwyr nyrsio yng Nghymru cyn iddynt gofrestru? (WAQ23504)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd, cyn iddynt gofrestru, mae nyrsys yn cael bwrsariaeth nad yw'n seiliedig ar brawf modd, sydd tua £6,000 y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i ystyried ffyrdd y gellir gwella'r cymorth i fyfyrwyr yn yr amgylchiadau hyn.

### Meddygon a Gyflogwyd gan y GIG

**Alun Cairns:** Faint o feddygon a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ23508)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Meddygon a gyflogir yn y GIG (a)**

| | **Staff meddygol ysbytai** | | **Staff meddygol iechyd cyhoeddus / cymunedol** | | **Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol (c)** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **CALl(b)** | **Nifer** | **CALl(b)** | **Nifer** |
| **1997** | 3,782 | 3,168 | 251 | 138 | 1,874 |
| **1998** | 3,853 | 3,314 | 240 | 142 | 1,888 |
| **1999** | 3,979 | 3,432 | 223 | 139 | 1,891 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2000** | 4,138 | 3,550 | 203 | 132 | 1,903 |
| **2001** | 4,129 | 3,576 | 183 | 120 | 1,919 |

(a) Mewn gwaith ar 30 Medi (heb gynnwys staff locwm). Mae'n bosibl bod rhai staff yn gweithio mewn rhagor nag un o'r categorïau a welir;
(b) Cyfatebiaethau amser llawn;
(c) Pob math.

**Nyrsys a Gyflogwyd gan y GIG**

**Alun Cairns:** Faint o nyrsys a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ23509)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Staff yn y grŵp staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd mewn gwaith ar 30 Medi**

| | **Pob Staff** | | **Staff Cymwysedig** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Cyfatebiaeth amser llawn** | **Nifer** | **Cyfatebiaeth amser llawn** |
| **1997** | 30,948 | 23,418 | 21,760 | 17,228 |
| **1998** | 31,855 | 23,691 | 21,982 | 17,180 |
| **1999** | 32,708 | 23,973 | 22,626 | 17,397 |
| **2000** | 35,169 | 24,314 | 24,127 | 17,672 |
| **2001** | 35,521 | 24,751 | 24,439 | 18,088 |

**Gweinyddwyr a Gyflogwyd gan y GIG**

**Alun Cairns:** Faint o weinyddwyr a gyflogwyd gan y GIG yng Nghymru bob blwyddyn er 1997? (WAQ23510)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl canlynol.

**Rheolwyr a gweinyddwyr a gyflogwyd gan y GIG ar 30 Medi**

| | Nifer | | Cyfatebiaeth amser llawn | |
|---|---|---|---|---|
| | **Rheolwyr (a)** | **Clercyddol a Gweinyddol** | **Rheolwyr (a)** | **Clercyddol a Gweinyddol** |
| **1997** | 1,311 | 10,253 | 1,252 | 8,457 |
| **1998** | 1,347 | 10,630 | 1,296 | 8,649 |
| **1999** | 1,231 | 10,807 | 1,176 | 8,853 |
| **2000** | 1,259 | 11,401 | 1,198 | 9,213 |
| **2001** | 1,403 | 12,045 | 1,339 | 9,799 |

(a) Cyflogir yn y grŵp staff gweinyddiaeth ac ystadau.

**Adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg**

**Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba bwerau yn union sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â gweithredu'r cynigion yn adroddiad y Swyddfa Masnachu Teg, 'The Control of Entry Regulations and Pharmacy Services in the UK'? (WAQ23516) [R]

**Jane Hutt:** Y mae pwerau datganoledig y Cynulliad o safbwynt gwasanaethau fferyllol i'w gweld yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Oherwydd na chytunwyd eto ar

yr ymateb i gynigion y Swyddfa Masnachu Teg, ni allaf fanylu ynghylch yr union bwerau a fydd, neu na fydd, yn cael eu defnyddio.

### Brechlynnau'r Frech Wen

**Glyn Davies:** A oes digon o frechlynnau'r frech wen ar gael i drin pawb yng Nghymru? (WAQ23526)

**Jane Hutt:** Ein prif strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw heintiad o'r frech wen yw canfod, ffrwyno ac ynysu achosion. Byddai hyn yn cael ei gefnogi drwy gylch-frechu a monitro'r cysylltiadau. Nid yw'r cyngor meddygol a roddwyd i adrannau iechyd y DU yn argymell brechu ar raddfa fawr.

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â chyngor Sefydliad Iechyd y Byd. Mae tua 20 miliwn o ddosau ar gael i adrannau iechyd y DU eu defnyddio i gefnogi'r dull gweithredu hwn.

### Adroddiadau Arolygu Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Pa gyfleoedd sydd gan y cyhoedd i archwilio adroddiadau arolygu cartrefi gofal? (WAQ23527)

**Jane Hutt:** Y mae adroddiadau arolygu ar gael i aelodau'r cyhoedd eu harchwilio yn swyddfeydd rhanbarthol Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (CSIW), fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y CSIW yn anfon copïau o adroddiadau at y bobl a gofrestrwyd i redeg neu reoli'r cartref, a byddai'r CSIW yn disgwyl i'r bobl gofrestredig ryddhau adroddiadau i'r cyhoedd, yn ôl y gofyn. Mae'r CSIW yn bwriadu rhyddhau adroddiadau cryno ar y rhyngrwyd dros yr ychydig fisoedd nesaf.

### Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Pa newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r rheolau sy'n llywodraethu cyhoeddi adroddiadau arolygu cartrefi gofal dros y tair blynedd diwethaf? (WAQ23528)

**Jane Hutt:** Dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002, rhaid i adroddiadau fod ar gael i'w harchwilio 'gan unrhyw berson ar unrhyw adeg resymol'. Nid oedd y ddeddfwriaeth flaenorol, Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984, yn mynnu adrodd agored ar arolygiadau. Dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, yr oedd awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd, y cyrff rheoleiddio blaenorol, yn rhyddhau adroddiadau dan ddarpariaethau siarter y dinesydd.

### Cynlluniau i Gyhoeddi Adroddiadau Arolygu Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gyhoeddi adroddiadau arolygu cartrefi gofal ledled Cymru? (WAQ23529)

**Jane Hutt:** Dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, rhaid i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru sicrhau bod copïau o'r adroddiadau arolygu ar gael yn ei swyddfeydd, ac mae yn gwneud hynny. Yn ogystal, mae'r CSIW yn bwriadu cyhoeddi adroddiadau cryno ar y rhyngrwyd dros yr ychydig fisoedd nesaf.

### Sganiwr Pelydr-X Deuol ar Gyfer Ysbyty Llandudno

**David Ian Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed er mwyn cael sganiwr pelydr-X deuol ar gyfer Ysbyty Llandudno? (WAQ23531)

**Jane Hutt:** Cyhoeddais arian ar gyfer sganiwr amsugneddomedreg pelydr-X deuol ar gyfer gogledd Cymru ar 20 Tachwedd 2002. Mae achos busnes wrthi'n cael ei ddatblygu, a bydd hwn yn dynodi'r lleoliad, y peirianwaith perthnasol a'r costau refeniw parhaus.

## Hosbis Llanelli

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog egluro pam fod uned bwrpasol gyda'r holl offer angenrheidiol i gleifion gyda chanser angheuol yn Hosbis Llanelli wedi bod yn wag ers dros ddwy flynedd, a chleifion yn derbyn gofal yn Ysbyty Tywysog Philip? (WAQ23669)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd yw darparu gwasanaethau iechyd. Hwy a fu yn y sefyllfa orau i asesu anghenion yr ardal leol ac, mewn cydweithrediad ag ymddiriedolaethau'r GIG, eu grwpiau iechyd lleol, y sector gwirfoddol ac eraill, maent wedi llwyddo i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i roi sylw i'r anghenion hyn gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Mae codi arian digonol i dalu'r costau blynyddol o redeg hosbis Ty Bryngwyn yn hen broblem. Er enghraifft, yn 2001, llwyddodd ymddiriedolaeth yr hosbis i sefydlu pecyn ariannu o £300,000 y flwyddyn yn unig o'i gymharu â'r £550,000 y flwyddyn a oedd yn ofynnol. Arweiniodd hyn at drafodaethau helaeth rhwng yr holl bartïon gyda'r nod o ariannu'r bwlch.

Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddais £70,000 rheolaidd ar gyfer Ty Bryngwyn er mwyn hwyluso ateb llawn, y cytunir arno'n lleol.

Bu i'r awdurdod iechyd a'r ymddiriedolaeth lunio pecyn o £225,000 o nawdd rheolaidd ar gyfer yr hosbis i'w ychwanegu at yr arian a sicrhawyd eisoes gan yr ymddiriedolwyr. Serch hynny, ni fu hyn yn ddigonol ar gyfer agor y gwelyau i gleifion mewnol.

Ar 15 Ionawr 2003, cyhoeddais arian cyfatebol ar gyfer gofal lliniarol. Dros gyfnod o dair blynedd, bydd £10 miliwn ar gael ar gyfer mudiad yr hosbisau gwirfoddol. Cyfarfu swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin ar 23 Ionawr i drafod y problemau yn Nhy Bryngwyn. Hysbyswyd yr ymddiriedolwyr o'r arian cyfatebol newydd ac maent wedi datgan eu bwriad i gyflwyno cais amdano.

## Blocio Gwelyau

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud faint gafodd pob cyngor sir yng Nghymru fel rhan o'r arian ychwanegol a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf i fynd i'r afael â blocio gwelyau? (WAQ23682)

**Peter Rogers:** Beth oedd y meini prawf ar gyfer penderfynu a fyddai cynghorau sir yn derbyn yr arian ychwanegol a ddarparwyd i fynd i'r afael â blocio gwelyau yn gynharach yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (WAQ23683)

**Peter Rogers:** Pam nad yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael rhagor o arian gan y Cynulliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i fynd i'r afael â blocio gwelyau? (WAQ23684)

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog gadarnhau a gafodd llwyddiant neu leoliad adran gwasanaethau cymdeithasol cyngor sir unrhyw effaith ar yr arian ychwanegol a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf i helpu i fynd i'r afael â blocio gwelyau? (WAQ23685)

**Jane Hutt:** Yn 2002-03, rhyddhawyd £12 miliwn i lywodraeth leol drwy grant, yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddeuai drwy gyfrwng y setliad refeniw llywodraeth leol, sydd heb ei neilltuo, er mwyn cynorthwyo cynghorau i weithio gyda phartneriaid lleol y GIG i leihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ac i gymryd camau eraill i gynnal swyddogaeth cartrefi gofal annibynnol. Dyrannwyd yr arian drwy fformwla yn seiliedig ar elfen gwasanaethau cymdeithasol henoed yr asesiad gwariant safonol yn unig. Rhestrir y dyraniadau i bob awdurdod lleol yn y tabl yn atodiad A. Cafodd Cyngor Sir Ynys Môn £304,785 fel ei gyfran o'r arian grant yn 2002-03, cynnydd o £216,560 ar y swm cyfatebol ar gyfer 2001-02. Yn ogystal, cafodd Cyngor Ynys Môn £50,798 fel ei gyfran drwy fformwla o £2 miliwn ychwanegol ar gyfer pwysau argyfwng yn 2002-03.

Esboniwyd y meini prawf ar gyfer cael arian grant yng nghylchlythyr canllaw NAFWC 13/02, mae copi ohono yn Llyfrgell yr Aelodau.

### Rhaglenni Gradd ac Astudiaethau Bydwreigiaeth

**David Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu llefydd ar raglenni gradd bydwreigiaeth yng Nghanol De Cymru/De Ddwyrain Cymru? (WAQ23686)

**David Davies:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a'r ysgolion clinigol yn ne Cymru (ar wahân i Abertawe) mewn perthynas â darparu astudiaethau gradd bydwreigiaeth i fynd i'r afael â'r prinder bydwragedd? (WAQ23688)

**Jane Hutt:** Y mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n ceisio cymhwyso yn fydwragedd wedi cymhwyso yn nyrsys i ddechrau ac, felly, dilynant gwrs 18-mis ôl-gofrestru i ennill gradd mewn bydwreigiaeth. Ar gyfer blwyddyn academaidd 2003-04, mae'r Cynulliad wedi comisiynu 84 o leoedd hyfforddi ledled Cymru ar y cwrs cyn-cofrestru 18 mis. Mae cyfanswm nifer y lleoedd hyfforddi a gomisiynwyd ar gyfer de Cymru (heb gynnwys Abertawe) ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn 55, sef 34 o leoedd o Goleg Meddygaeth Prifysgol Cymru ac 21 o Brifysgol Morgannwg. Ar hyn o bryd, Prifysgol Cymru, Abertawe yw'r un sefydliad sy'n cynnig llwybr derbyn uniongyrchol i'r maes bydwreigiaeth. Mae Prifysgol Cymru, Abertawe, yn ogystal â chynnig y cwrs ôl-gofrestru 18 mis, hefyd yn cynnig cwrs cyn-cofrestru tair blynedd ar gyfer bydwragedd. Ar gyfer 2003-04, bydd nifer y lleoedd a gomisiynwyd ar y cwrs tair blynedd yn 16, un yn rhagor nag yn y flwyddyn flaenorol.

Mae cynnig i ymestyn darpariaeth y cwrs bydwreigiaeth llwybr derbyn uniongyrchol, tair blynedd ledled Cymru wrthi'n cael ei ystyried.

### Rhaglenni Gradd Bydwreigiaeth yng Ngholeg Meddygaeth Cymru, Caerdydd

**David Davies:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno rhaglenni gradd bydwreigiaeth yng Ngholeg Meddygaeth Cymru, Caerdydd? (WAQ23687)

**Jane Hutt:** Y mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru eisoes yn cynnig cwrs gradd (cyn-cofrestru) 18 mis mewn astudiaethau bydwreigiaeth. Mae'r coleg hefyd wedi mynegi'n ffurfiol ei awydd i ymestyn y cwrs hwn i gynnig cwrs bydwreigiaeth 'llwybr derbyn uniongyrchol'; bwriedir cynnal trafodaethau ynghylch hyn fis nesaf.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Hiliaeth yng Ngogledd Cymru

**Peter Rogers:** Ydy'r ffigurau yn dangos bod hiliaeth ar drai neu ar gynnydd yng ngogledd Cymru? (WAQ23493)

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Dywedodd Heddlu Gogledd Cymru fod achosion o'r holl droseddau ar sail casineb a adroddir wrth yr heddlu wedi cynyddu yng ngogledd Cymru dros y tair blynedd diwethaf. Dywed y gellid esbonio hyn oherwydd gweithredu trefniadau diwygiedig yr heddlu ac ymddiriedaeth gynyddol yn yr heddlu er mwyn adrodd am achosion pan ddigwyddant.

### Ymwybyddiaeth o Wahanol Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru

**Peter Rogers:** Beth y mae eich adran chi yn ei wneud i gynyddu'r ymwybyddiaeth o wahanol leiafrifoedd ethnig yng Nghymru? (WAQ23494)

**Carwyn Jones:** Mae'r gwaith maes yn ymdrechu i dargedu rhannau o'r cymunedau lleiafrifoedd ethnig a du sydd ar gyrion cymdeithas, yn enwedig menywod a phobl ifanc. Yr ydym yn cysylltu ac yn ymgynghori gyda'r holl sefydliadau cymunedol presennol yn ogystal ag aelodau unigol y cymunedau lleiafrifol ethnig a du mewn ymgais i ganfod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Yr ydym hefyd yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o waith y Cynulliad, yn darparu gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael ac yn darparu manylion o ba gyfleoedd y gall y Cynulliad Cenedlaethol eu cynnig. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn darparu cyfrwng i'r holl gymunedau er mwyn cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r cymunedau lleiafrifol ethnig a du a gwyn a geir yng Nghymru.